Llywodraeth Cymru
Welsh Government

2026-2036

# Strategaeth ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru

llyw.cymru

**Mae'r strategaeth hon yn trafod cam-drin plant yn rhywiol ac felly gallai beri gofid. Os yw cam-drin rhywiol neu drais rhywiol wedi effeithio arnoch chi, mae cymorth ar gael drwy gysylltu â:**

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn** ar 0808 80 10 800, llinell gymorth am ddim sydd ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Mae **Iechyd Meddwl 111** (Dewis 2) ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, ac mae'n rhad ac am ddim i ffonio o ffôn symudol (hyd yn oed pan nad oes gan y galwr gredyd ar ôl) neu o linell dir.

**Llinell Gymorth C.A.L.L.**Yn cynnig gwasanaeth gwrando a chymorth cyfrinachol i unrhyw un sy'n pryderu am ei iechyd meddwl.

**Os oes gennych bryderon am blentyn a allai fod yn profi cam-drin rywiol neu a allai wynebu risg o gam-drin rhywiol, cysylltwch ag adran gwasanaethau plant yr awdurdod lleol yn eich ardal chi.**

Os ydych chi'n blentyn ac eisiau siarad â rhywun am rywbeth rydych chi neu rywun arall yn ei brofi neu'n poeni amdano, cysylltwch â Childline, llinell gymorth gyfrinachol am ddim i blant a phobl ifanc ar 0800 1111 neu ewch i'r wefan [Childline | Hafan](#)

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Strategaeth (2026-2036) neu'r Cynllun Cyflawni (2026-2029), cysylltwch â** safeguardingandadvocacy@llyw.cymru **neu gallwch ysgrifennu at:**

Y Gangen Diogelu ac Eirioli,
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
CF10 3NQ

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | 5 |
| **Crynodeb Gweithredol** | 7 |
| **Adran 1:** Cyflwyniad a Chyd-destun | 9 |
| **Adran 2:** Egwyddorion a gwerthoedd sy'n sail i'r strategaeth | 17 |
| **Adran 3:** Cam-drin Plant yn Rhywiol – Tystiolaeth a Chyd-destun | 23 |
| **Adran 4:** Lleisiau plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr | 41 |
| **Adran 5:** Atal, Diogelu, Ymateb a Chefnogi | 47 |
| **Adran 6:** Strwythur cyflawni | 53 |
| **Adran 7:** Monitro a Gwerthuso | 61 |
| **Atodiad 1:** Y rhyngberthynas rhwng y strategaeth hon a strategaethau a chynlluniau gweithredu eraill y Llywodraeth | 65 |
| **Atodiad 2:** Terminoleg | 79 |
| **Atodiad 3:** Adnoddau i gefnogi ymarfer proffesiynol | 81 |

# Rhagair

Cam-drin plant yn rhywiol yw un o'r camweddau gwaethaf yn erbyn hawliau ac urddas plentyn. Gall ei effaith newid bywyd, gan effeithio ar iechyd, perthnasoedd, addysg, cyflogaeth a llesiant cyffredinol am flynyddoedd lawer – hyd yn oed pan fydd y plentyn yn oedolyn.

Mae'r niwed yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r plentyn ei hun, gan effeithio ar deuluoedd, cymunedau, a chymdeithas yn ei chyfanrwydd. Felly, mae atal cam-drin a chefnogi'r rhai sydd wedi'u niweidio yn flaenoriaeth wirioneddol i'r llywodraeth hon ac yn gydgyfrifoldeb moesol.

Rhwng 2019 a 2022, fe wnaethom gyflwyno Cynllun Gweithredu Cenedlaethol cyntaf Cymru i atal cam-drin plant yn rhywiol, ac ymateb i achosion o'r fath. Er bod y gwaith hwn wedi sicrhau cynnydd, roedd gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar yn dangos yn glir na allai cylch strategaeth tair blynedd fynd i'r afael yn llawn â chymhlethdod a graddfa'r her. Atgyfnerthwyd y farn hon yn gryf drwy ein hymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar y strategaeth ddeng mlynedd ddrafft hon.

Mae'r strategaeth ddeng mlynedd hon yn cynrychioli ymrwymiad cenedlaethol sydd wedi'i adnewyddu a'i gryfhau. Mae'n nodi dull hirdymor, system gyfan sy'n dwyn ynghyd y llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, sefydliadau arbenigol, cymunedau, ac – yn bwysicaf oll – plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr. Mae atal camdriniaeth, amddiffyn plant pan fydd pryderon yn codi, a chefnogi adferiad yn gofyn am arweinyddiaeth barhaus, rhannu cyfrifoldeb a phenderfyniad ar y cyd dros amser.

Rwy'n arbennig o ddiolchgar i'r unigolion hynny â phrofiad byw sydd wedi helpu i siapio'r strategaeth hon. Mae eu mewnwelediad, eu dewrder a'u gonestrwydd wedi bod yn amhrisiadwy, a bydd eu lleisiau yn parhau i fod yn ganolog wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu a'i chyflawni.

Mae hon yn strategaeth uchelgeisiol, gan fod angen bod yn uchelgeisiol i sicrhau newid ystyrlon a pharhaol. Mae'n adlewyrchu pa mor benderfynol yr ydyn ni o atal camdriniaeth cyn iddi ddigwydd, sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ddiogelu, a darparu cymorth tosturiol, amserol ac effeithiol i bawb y mae camdriniaeth wedi effeithio arnynt.

Gyda'n gilydd, gallwn adeiladu Cymru lle mae pob plentyn yn tyfu i fyny yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei werthfawrogi ac yn gallu ffynnu.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r strategaeth hon a'r Cynllun Cyflawni tair blynedd cyntaf. Bydd eich arbenigedd, eich ymrwymiad a'ch partneriaeth yn hanfodol wrth inni weithio gyda'n gilydd i gyflawni'r newid y mae plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr yn ei haeddu.

**Diolch yn fawr**



# Crynodeb Gweithredol

## Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Roedd hwn yn gynllun tair blynedd, a chyhoeddwyd adroddiad cyflawni yn 2022 yn manylu ar y cyflawniadau hyd yma a'r gwaith pellach sydd ei angen. **(Adroddiad Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).**

O dan y Cynllun hwn datblygwyd nifer o adnoddau allweddol ar gyfer plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Datblygwyd a gweithredwyd llwybr cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiadau rhywiol niweidiol a datblygodd pob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol eu gynllun gweithredu ei hun ar gyfer atal cam-drin plant yn rhywiol.

Roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dangos yn gyson bod angen dull tymor hwy, mwy strategol, gan gynnwys mwy o ffocws ar newid diwylliant ac ar gymorth i oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr.

Mae'r Strategaeth hon yn nodi ymrwymiad trawslywodraethol deng mlynedd  i atal cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru ac ymateb iddo. Y weledigaeth strategol yw:

**'Mae pob plentyn yng Nghymru yn byw'n rhydd rhag niwed cam-drin rhywiol ac mae pawb yr effeithir arnynt yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi drwy gydol eu hoes'.**

**Mae pedwar amcan lefel uchel yn sail i'r strategaeth:**

- atal cam-drin plant yn rhywiol;
- amddiffyn plant ac ymateb iddynt yn effeithiol pan fo pryderon am gam-drin plant yn rhywiol;
- cefnogi plant, rhieni/gofalwyr, brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu;
- cefnogi oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr.

Mae dull system gyfan yn ganolog i gyflawni'r amcanion hyn. Mae'r Strategaeth yn hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin, rolau a chyfrifoldebau clir, a rhannu gwybodaeth yn amserol ar draws yr holl sefydliadau dan sylw. Mae'n cydnabod bod cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd mewn cyd-destunau niferus: ar-lein ac all-lein, o fewn teuluoedd, sefydliadau, grwpiau cyfoedion a chymunedau, a bod gofyn cael ymatebion cydgysylltiedig sy'n cwmpasu atal, ymyrraeth gynnar ac amddiffyniad statudol.

Bydd set ddata graidd genedlaethol yn elfen hanfodol o ran cryfhau effeithiolrwydd y system. Bydd sylfaen dystiolaeth gyson yn helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o gyffredinrwydd, pwysau ar wasanaethau a chanlyniadau, gan alluogi gwell cynllunio, comisiynu ac atebolrwydd ledled Cymru. Dros amser, bydd hyn yn hybu proses o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata ac sy'n fwy cyson a thryloyw.

Bydd y Strategaeth yn cael ei rhoi ar waith drwy strwythur cenedlaethol sydd wedi'i gynllunio i ddarparu goruchwyliaeth, i gydgysylltu camau gweithredu ac i ategu'r trefniadau rhanbarthol presennol. Yn ganolog iddi bydd Bwrdd Gweithredu a Throsolwg Strategol, dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru, a fydd yn gyfrifol am gyfarwyddo ffrydiau gwaith, monitro cynnydd ac adrodd i Weinidogion. Bydd pedair ffrwd waith thematig yn ysgogi gweithredu ar draws meysydd atal, amddiffyn ac adfer, gyda chymorth grwpiau gorchwyl a gorffen a fydd yn canolbwyntio ar feysydd galluogi allweddol megis data, hyfforddiant a llwybrau cenedlaethol.

Bydd grwpiau cynghorol ar gyfer plant a phobl ifanc, ac ar gyfer oedolion sy'n dioddefwyr-oroeswyr, yn sicrhau bod profiad byw yn parhau i lywio'r gwaith cyflawni, a bod ymgysylltu moesegol a chymorth priodol yn ategu hynny. Bydd monitro a gwerthuso yn cael eu hymgorffori o'r flwyddyn gyntaf, gan gyfuno mesurau meintiol ac ansoddol i olrhain effaith y strategaeth a'i haddasu dros amser. Mae'r strwythur cydweithredol hwn yn sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed a bod Cymru'n bwrw ymlaen ar sail dull unedig o fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, a hynny'n seiliedig ar dystiolaeth.

### Adran 1

Yn cyflwyno gweledigaeth ac amcanion y strategaeth ac yn nodi'r cyd-destun cyfreithiol a pholisi.

### Adran 2

Yn esbonio'r egwyddorion sy'n sail i'r dull y byddwn yn ei fabwysiadu – gwrth-ormesol, gwrth-stigma, cynhwysol, croestoriadol ac yn seiliedig ar hawliau.

### Adran 3

Yn amlinellu crynodeb o'r dystiolaeth am gam-drin plant yn rhywiol; mae'n cynnwys adrannau ar gam-drin plant yn rhywiol o fewn yr amgylchedd teuluol; cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant; ymddygiadau rhywiol niweidiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein.

### Adran 4

Yn esbonio sut y mae safbwyntiau plant a phobl ifanc ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth hon a sut y byddant yn parhau i fod yn ganolog iddi.

### Adran 5

Yn crynhoi gweledigaeth strategol ac amcanion y strategaeth a sut y mae'n croestorri â meysydd polisi allweddol eraill. Esbonnir hyn ymhellach yn Atodiad 1.

### Adran 6

Yn nodi'r strwythur y byddwn yn ei sefydlu i gyflawni'r strategaeth ac yn esbonio sut y byddwn yn datblygu hyn gyda rhanddeiliaid allweddol.

### Adran 7

Yn esbonio sut y byddwn yn monitro cynnydd, yn gwerthuso canlyniadau ac effaith gan ddefnyddio dulliau meintiol ac ansoddol, ac yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

**Dylid darllen y Strategaeth ochr yn ochr â Chynllun Cyflawni 2026–2029, sy'n nodi'r camau penodol a gymerir i gyflawni bwriad y polisi.**

# Adran 1: Cyflwyniad a Chyd-destun

**Mae ein gweledigaeth yng Nghymru yn glir: Mae pob plentyn yn byw'n rhydd rhag niwed cam-drin plant yn rhywiol, ac mae pawb yr effeithir arnynt yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi drwy gydol eu hoes.**

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn gamwedd ddifrifol yn erbyn hawliau plant, sy'n arwain at ganlyniadau niweidiol, gydol oes yn aml, i ddioddefwyr-oroeswyr, eu teuluoedd a chymdeithas. Mae mynd i'r afael â'r mater hwn yn gofyn am ddull cynhwysfawr, cydgysylltiedig sy'n cwmpasu atal, adnabod yn gynnar, ymateb yn effeithiol, a chymorth parhaus.

Mae'r strategaeth hon yn nodi dull system gyfan o fynd i'r afael â phob math o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ac ymddygiadau rhywiol niweidiol. Ein nod yw atal cam-drin cyn iddo ddigwydd, sicrhau bod gweithredu cyflym ac effeithiol yn digwydd pan fydd pryderon yn codi, a darparu cymorth cyfannol i ddioddefwyr a'u teuluoedd (gan gynnwys rhieni/gofalwyr, brodyr a chwiorydd, a theulu estynedig), gan alluogi adferiad ac adeiladu gwydnwch.

Mae ymateb system gyfan yn dibynnu ar bartneriaethau cryf, cydgysylltiedig ar draws yr holl asiantaethau diogelu – o arweinwyr gwleidyddol a strategol i ymarferwyr rheng flaen – ac mae'n ymwneud â phopeth o waith atal cyffredinol i ymyriadau statudol.

Rhaid i gydweithredu amlasiantaeth effeithiol fod wedi'i wreiddio mewn parch at ein gilydd, cyd-ddealltwriaeth, ac ymrwymiad ar y cyd i weithredu'n benderfynol gyda'n gilydd.

**I gyflawni hyn, rhaid inni wneud y canlynol:**

- Datblygu dealltwriaeth gyffredin o gam-drin plant yn rhywiol.
- Egluro rolau a chyfrifoldebau ar draws asiantaethau a sefydliadau.
- Blaenoriaethu rhannu gwybodaeth yn amserol ac yn effeithiol.
- Sicrhau bod cymorth i blant, teuluoedd a dioddefwyr-oroeswyr yn cael ei gydgysylltu'n dda ac yn ymatebol i'w hanghenion.

Mae'r strategaeth hon yn ymdrin â cham-drin plant yn rhywiol a'i effaith gydol oes ac ym mhob cyd-destun: ar-lein ac all-lein; o fewn sefydliadau, teuluoedd, grwpiau cymdeithasol, a chymunedau; a boed yn cael ei gyflawni gan unigolion neu grwpiau, gan oedolion neu gan blant eraill.

Yn ystod datblygiad y strategaeth, nododd rhanddeiliaid allweddol bedwar amcan strategol a chefnogwyd y rhain yn gryf gan bobl/sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf a Hydref 2025.

1. Atal cam-drin plant yn rhywiol
2. Amddiffyn plant ac ymateb iddynt yn effeithiol pan fo pryderon am gam-drin plant yn rhywiol
3. Cefnogi plant, rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin, brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu
4. Cefnogi oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr

## 1.1 Sut y mae'r strategaeth yn cyd-fynd â deddfwriaeth, polisi a chanllawiau

Yn sylfaen i'r strategaeth mae fframwaith deddfwriaethol sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ymdrin ag anghenion plant ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol. Mae **adran 25 o Ddeddf Plant 2004** yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau allweddol gydweithredu i hyrwyddo lles plant ac mae hyn yn ymestyn i sefydlu'r trefniadau diogelu amlasiantaeth y mae'r strategaeth wedi'i seilio arnynt. Mae **adran 28 o Ddeddf Plant 2004** yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau allweddol wneud trefniadau i sicrhau nid yn unig bod eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni gan roi sylw i'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ond hefyd i sicrhau bod y rhai sy'n darparu gwasanaethau ar eu rhan yn gwneud yr un peth.

Gan ategu hyn, mae **Adran 135 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn estyn y cyfrifoldebau diogelu hyn i oedolion drwy amlinellu swyddogaethau a dyletswyddau Byrddau Diogelu mewn perthynas â phlant ac oedolion sy'n wynebu risg. Gyda'i gilydd, mae'r darpariaethau hyn yn creu fframwaith diogelu cydlynol, system gyfan, gan sicrhau y gall y strategaeth genedlaethol gynnwys camau gweithredu yn briodol i gefnogi oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr, cryfhau cydgysylltu amlasiantaeth, a gwreiddio gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar adferiad gydol oes.

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, sicrhawyd ei bod yn ystyried ac yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth, y polisïau a'r canllawiau mwyaf perthnasol sy'n ymwneud ag atal cam-drin plant yn rhywiol, yr ymateb amlasiantaeth a'r cymorth i ddioddefwyr-oroeswyr (oedolion a phlant) a'u teuluoedd.

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Mae'n darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer diogelu oedolion a phlant yng Nghymru. Sefydlodd y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

**Diogelu pobl: cyflwyniad | LLYW.CYMRU** Cyfrol 1 – Cyflwyniad a throsolwg

> Mae'r Cod Ymarfer hwn yn ganllaw statudol sy'n darparu cyflwyniad a throsolwg o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn nodi'r bwriad polisi.

**Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: cod ymarfer diogelu | LLYW.CYMRU**

> Cod anstatudol yw hwn ac fe'i datblygwyd i roi arweiniad i unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i blant, teuluoedd ac oedolion sy'n wynebu risg, o ran datblygu systemau diogelu cadarn. Mae'r rhain



1.1

yn grwpiau a sefydliadau yn y sector gwirfoddol, yn y sector preifat ac weithiau'n grwpiau nad ydynt yn cael eu goruchwylio gan reoleiddwyr fel Arolygiaeth Gofal Cymru.

**Diogelu plant sy'n wynebu risg o gam-drin neu esgeulustod | LLYW.CYMRU** Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Ddiogelu Plant sy'n Wynebu Risg

> Mae'r Cod Ymarfer hwn yn ganllaw statudol sy'n nodi sut y mae'n rhaid i sefydliadau ymateb i ddiogelu plant a phobl ifanc sy'n profi neu sy'n wynebu risg o brofi camdriniaeth a/neu esgeulustod.

**Diogelu oedolion sy'n wynebu risg o gam-drin neu esgeulustod | LLYW.CYMRU** Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 6

> Mae'r Cod Ymarfer hwn yn ganllaw statudol sy'n nodi sut y mae'n rhaid i sefydliadau ymateb i ddiogelu oedolion sy'n profi neu sy'n wynebu risg o brofi camdriniaeth a/neu esgeulustod.

**Diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol | LLYW.CYMRU** Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 7

> Canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol sy'n nodi'r ffordd y bydd sefydliadau yn cefnogi plant sy'n profi neu cam-drin rhywiol neu y mae risg y byddant yn ei brofi.

Mae'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru (gan gynnwys y llysoedd, yr heddlu, y gwasanaeth prawf a charchardai) yn faes a gedwir yn ôl, felly Senedd a Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol amdano.

**Mae'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n berthnasol i gam-drin plant yn rhywiol yn cynnwys y canlynol:**

**Deddf Troseddau Rhywiol 2003** yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu troseddau rhywiol yng Nghymru a Lloegr. Mae'n diffinio ac yn troseddoli gwahanol droseddau rhywiol. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau hefyd ar gyfer gofynion hysbysu mewn perthynas â phobl ag euogfarnau rhywiol a gorchmynion sifil i reoli'r risg a achosir gan bobl ag euogfarnau rhywiol.

Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn ymwneud â rheoli pobl ag euogfarnau rhywiol.

Mae'n sefydlu:

- **Gofynion Hysbysu:** Rhaid i droseddwyr rhywiol a gafwyd yn euog roi gwybod i'r heddlu yn rheolaidd am fanylion personol, gan gynnwys eu cyfeiriad, cynlluniau teithio ac unrhyw newidiadau i'w hamgylchiadau.
- **Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO):** Gall y gorchmynion sifil hyn osod cyfyngiadau ar unigolion i atal niwed rhywiol, megis

## 1.1

cyfyngu ar y defnydd o'r rhyngrwyd neu gyswllt â phlant heb oruchwyliaeth.

- **Gorchmynion Risg Rhywiol (SRO):** Mae'r rhain yn gymwys i unigolion na chafwyd yn euog ond yr ystyrir eu bod yn peri risg o niwed rhywiol, ac maent yn caniatáu ymyrraeth ragweithiol.

Mae'r mesurau hyn yn galluogi asiantaethau gorfodi'r gyfraith i fonitro a rheoli troseddwyr yn effeithiol o fewn y gymuned.

Mae **Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 a Deddf Cyfathrebiadau 2003** yn ei gwneud yn drosedd i anfon (drwy rwydwaith cyfathrebu electronig cyhoeddus) llythyrau anweddus, sarhaus neu fygythiol, neges neu gyfathrebiad arall, cyfathrebiadau electronig, neu eitemau eraill sy'n sarhaus iawn neu o natur anweddus, anllad neu fygythiol gyda'r bwriad o achosi trallod neu bryder.

Mae **Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022** yn cryfhau'r gofynion hysbysu. Mae'n cyflwyno rhwymedigaethau mwy trwyadl i droseddwyr roi gwybod am weithgareddau penodol a newidiadau yn eu hamgylchiadau ac mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn cael awdurdod ehangach i fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth ymhlith pobl sy'n destun gofynion hysbysu.

**Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003** sefydlodd y Ddeddf hon drefniadau amlasiantaeth ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA). Mae MAPPA yn darparu fframwaith i wahanol asiantaethau, gan gynnwys yr heddlu, gwasanaethau prawf a gwasanaethau cymdeithasol, gydweithio wrth asesu a rheoli'r risgiau a berir gan droseddwyr rhywiol a threisgar. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn sicrhau bod mesurau priodol ar waith i amddiffyn y cyhoedd.

Mae'r **Ddeddf Diogelwch Ar-lein (OSA)** yn cyflwyno fframwaith statudol cryfach sydd wedi'i gynllunio i atal, canfod a tharfu ar gam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein. Mae'n gosod dyletswyddau cyfreithiol sy'n rhwymo llwyfannau ar-lein – gan gynnwys gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol, apiau negeseuon, peiriannau chwilio, ac unrhyw wasanaeth sydd â defnyddwyr yn y DU – i nodi risgiau i blant a chymryd camau effeithiol i'w lliniaru.

**Rhaid i lwyfannau wneud y canlynol:**

- cynnal asesiadau o risgiau sy'n benodol i blant a mynd i'r afael â nodweddion a allai hwyluso grŵmio, cyswllt niweidiol, neu ddod i gysylltiad â deunyddiau'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol **[acsh.org]**
- mynd ati'n rhagweithiol i nodi a dileu cynnwys anghyfreithlon, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol
- rhoi gwybod am gynnwys yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant i'r Asiantaeth Troseddu Genedlaethol (NCA)
- gweithredu mesurau sicrwydd oedran cadarn, gan gynnwys dulliau dilysu diogel ar gyfer cael mynediad at bornograffi a sicrhau na all dieithriaid anfon negeseuon at unigolion o dan 18 oed
- sefydlu egwyddorion 'diogel o'r cychwyn', sy'n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau roi mesurau diogelu technegol a gweithredol ar waith i ganfod patrymau amheus, cyfyngu ar lwybrau grŵmio, ac ymateb yn gyflym i bryderon
- Mae Ofcom yn goruchwylio cydymffurfiaeth â'r uchod.



## 1.2 Adroddiadau sydd wedi llywio'r strategaeth hon

### Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA)

Sefydlwyd yr Ymchwiliad yn 2015 yn dilyn galwadau gan y cyhoedd am ymchwiliad cenedlaethol i ymateb i'r datgeliadau parhaus am bobl proffil uchel yn cam-drin plant yn rhywiol, yn enwedig o Operation Yewtree, yr ymchwiliadau i Jimmy Saville. Cyhoeddodd ei adroddiad terfynol ym mis Hydref 2022. Roedd yr adroddiad terfynol yn gwneud argymhellion i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru [1]. Cafodd y chwech argymhelliad a wnaed i Lywodraeth Cymru eu derbyn neu eu derbyn mewn egwyddor. Cyhoeddwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 20 Ebrill 2023.[2]

### Archwiliad Cenedlaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Plant yn Rhywiol ar sail Grŵp, Y Farwnes Casey o Blackstock DBE CB Mehefin 2025[3]

Nododd yr archwiliad cenedlaethol:

- Fod bylchau o hyd yn y data ac yn y gwaith i wir ddeall camfanteisio'n rhywiol ar blant ar sail grŵp, yr hyn sy'n cymell ac yn gyrru troseddwyr, a'r effeithiau ar ddioddefwyr.
- Nad yw gwelliannau wedi cael eu rhoi ar waith mewn modd digon trylwyr na phenderfynol; gadawyd iddynt lithro neu ni weithredwyd arnynt.

[1] Adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol | Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) [2] Datganiad Ysgrifenedig: Datganiad Ysgrifenedig: Yr wybodaeth ddiweddaraf am ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion adroddiad terfynol IICSA (20 Ebrill 2023) | LLYW.CYMRU
[3] Archwiliad Cenedlaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Plant yn Rhywiol ar sail Grŵp – GOV.UK

## 1.3 Dolenni at strategaethau eraill

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2019-2022).

Mae'r strategaeth hon yn cysylltu â'r Amcanion Llesiant a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021-2026:

- Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.
- Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel.
- Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math.

Mae **'Cymru Iachach: ein cynllun ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol[4]'** a gyhoeddwyd yn 2021 yn gonglfaen i'r Rhaglen Lywodraethu. Mae'r cynllun yn egluro gweledigaeth hirdymor ar gyfer 'dull system gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol' yn y dyfodol, sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant, ac ar atal.

Mae'r strategaeth yn cefnogi'n uniongyrchol y saith nod llesiant cysylltiedig yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** gan gynnwys Cymru gydnerth; Cymru iachach; a Chymru fwy cyfartal. Datblygwyd y strategaeth yn unol â'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf.

### Mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, Llywodraeth y DU

Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddiweddariad ar y cynllun gweithredu Mynd i'r Afael â Cham-drin Plant yn Rhywiol a gweithredu argymhellion IICSA.[5]

### Rhyddid rhag Trais a Chamdriniaeth: Strategaeth drawslywodraethol (ddeng mlynedd) i adeiladu cymdeithas fwy diogel i fenywod a merched

Cyhoeddwyd y strategaeth a'r cynllun gweithredu cysylltiedig ym mis Rhagfyr 2025 yn nodi'r camau gweithredu y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu eu cymryd i leihau trais yn erbyn menywod a merched yn y degawd nesaf. Mae tair elfen i'r strategaeth: Atal ac Ymyrraeth Gynnar; Ymdrech Ddiwyro i fynd ar Drywydd Tramgwyddwyr; a Chymorth. Mae'r ymrwymiadau a wnaed fel rhan o'r cynllun gweithredu Mynd i'r Afael â Cham-drin Plant yn Rhywiol wedi'u hailddatgan yn y strategaeth a'r cynllun gweithredu hwn.

### Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol[6]

Roedd y **Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol** a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022, yn tynnu sylw at yr anghydraddoldebau ar sail hil, sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn, a brofir gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar realiti hiliaeth sefydliadol a strwythurol, gan

[4] Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU
[5] Tackling child sexual abuse: progress update - GOV.UK
[6] Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: diweddariad 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU



## 1.3

bwysleisio bod pobl ethnig leiafrifol o dan anfantais anghymesur ar bron bob lefel o bob system.

Drwy gydnabod y gwirionedd anghyfforddus hwn, mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn annog sector cyhoeddus, sector preifat a thrydydd sector Cymru i wynebu natur helaeth anghydraddoldebau hiliol a chydnabod y manteision anfwriadol yn aml sy'n cael eu profi gan rai grwpiau. Mae'n galw am ddewrder, fel cenedl, i wynebu anghyfiawnderau systemig a gweithio ar y cyd tuag at newid ystyrlon.

### Cynllun Gweithredu LHDTC+ [7]

Sefydlwyd Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru i helpu i gydgysylltu camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill. Mae'r cynllun yn nodi gweledigaeth gyffredinol i wella bywydau a chanlyniadau i bobl LHDTC+.

**Ar gyfer pob person LHDTC+, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:**

- gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol (**Llywodraeth Cymru 2022a**)
- gwneud Cymru yn lle mwy diogel
- gwneud Cymru yn Genedl Noddfa i fudwyr LHDTC+
- gwella canlyniadau gofal iechyd
- sicrhau bod addysg yng Nghymru yn gynhwysol
- gwella cynhwysiant a chyfranogiad ym mhob rhan o fywyd
- gwrando ar ein cymunedau LHDTC+ a chydweithio â nhw
- amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl draws ac anneuaidd

### Cynllun Gweithredu Hawliau Anabledd[8]

Yn ôl y model cymdeithasol o anabledd, amhariad yw'r hyn y cyfeiriwyd ato'n hanesyddol fel "anabledd" neu gyflwr iechyd. I lawer o bobl anabl (ond nid pob un), mae eu hamhariad yn rhan arwyddocaol o'u bywydau a gallai fod yn rhan o'u hunaniaeth bersonol. Mae profiad pawb yn wahanol. Mae'r profiad hwnnw bob amser yn ddilys ac yn bwysig.

Anabledd ar y llaw arall yw'r anghydraddoldeb, yr anfantais, y dirymuso neu'r gwahaniaethu sy'n gallu effeithio ar bobl ag amhariadau oherwydd rhwystrau rhag mynediad a chynhwysiant. Er enghraifft, mae grisiau yn rhwystr i rywun sydd mewn cadair olwyn; mae gosod lifft yn chwalu'r rhwystr hwnnw. Mae anabledd felly'n effeithio ar bobl sydd ag amhariad, ond mae'n wahanol i amhariad. Mae anabledd yn rhywbeth sy'n anablu rhywun sydd ag amhariad. Gellir cael gwared ar rwystrau. Os ydych yn cael gwared ar y rhwystr rydych yn cael gwared ar yr anabledd.

[7] Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru | LLYW.CYMRU
[8] Cynllun Drafft ar Hawliau Pobl Anabl: 2025 i 2035 [HTML] | LLYW.CYMRU

# Adran 2:
# Egwyddorion a gwerthoedd sy’n sail i’r strategaeth

Yn sail i’r strategaeth mae Deddf Hawliau Dynol 1998 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn a’r egwyddorion a’r gwerthoedd canlynol:

**Canolbwyntio ar yr unigolyn**
Sicrhau ein bod yn rhoi llais dioddefwyr-oroeswyr yn ganolog i’r camau a gymerir o dan y strategaeth hon.

**Cydgynhyrchu**
Trin pobl yn bartneriaid cyfartal wrth gynllunio, datblygu a gweithredu polisïau a gwasanaethau.

**Dull sy’n seiliedig ar hawliau**
Sicrhau bod hawliau dynol a hawliau plant wrth wraidd y strategaeth.

**Ystyriol o drawma**
Meithrin dealltwriaeth gyhoeddus o sut y gall trawma ac adfyd effeithio ar bobl a sut y gallwn gefnogi’r rhai yr effeithir arnynt gan drawma.

**Tegwch mynediad, profiad a chanlyniadau heb wahaniaethu**
Sicrhau bod unrhyw gynhyrchion/gwasanaethau a ddatblygir yn hygyrch ac yn briodol i bawb.

**Defnyddio dull croestoriadol**
Cydnabod bod pobl yn cael eu siapio gan eu haelodaeth o amryw o gategorïau cymdeithasol rhyng-gysylltiedig sy’n gallu rhyngweithio i greu heriau unigryw, a bydd hyn yn llywio’r camau a gymerir.

**Ataliol**
Defnyddio dull ataliol sy’n ceisio sicrhau bod unigolion yn llai agored i niwed ac sy’n darparu’r ymyriadau iawn ar yr adeg iawn.

**Rhydd rhag stigma a chywilydd, bai a barn**
Mynd i’r afael â stigma, a’r safbwyntiau cymdeithasol sy’n gysylltiedig â cham-drin plant yn rhywiol.

**Canolbwyntio ar ganlyniadau**
Cyflawni yn erbyn y canlyniadau sy’n bwysig i bobl a sicrhau bod system sy’n gallu mesur y canlyniadau hyn a chael ei dwyn i gyfrif amdanynt.

## 2.1 Ffocws ar arferion gwrth-ormesol

Mae rhai grwpiau o blant yn wynebu risg anghymesur o brofi cam-drin rhywiol sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldebau ehangach mewn cymdeithas. Bydd effaith anghymesur ar grwpiau wedi'u hymyleiddio sy'n profi gwahaniaethu, hiliaeth neu allgáu ar sail oedran, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu nodweddion eraill a warchodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys plant anabl, plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, plant sy'n ceisio lloches ac sy'n ffoaduriaid, a phlant sy'n byw mewn tlodi.

**Mae'r blaenoriaethau yn y strategaeth hon yn ymwneud â'r canlynol:**

- Ymgorffori camau cydweithredol i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed rhywiol.
- Grymuso plant a phobl ifanc i wybod am eu hawliau a theimlo eu bod yn gallu mynnu'r hawliau hynny.
- Gwrando ar anghenion pobl i lunio a llywio'r gwasanaethau a'r cymorth a gânt.
- Rhoi systemau ar waith sy'n galluogi mynediad a chanlyniadau teg i bawb, yn ddieithriad.

Bydd y strategaeth yn cefnogi hawliau dynol a hawliau plant (er enghraifft drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn canlyniadau) yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Bydd ffocws parhaus ar erthyglau unigol CCUHP a'r argymhellion yn Adroddiad Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2023.

Dros y degawd nesaf, bydd y strategaeth yn sicrhau bod materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a chroestoriadedd yn cael eu hystyried yn llawn ym mhob ffrwd waith ac fel rhan o ddull cynhwysfawr o ymdrin â newid.



## 2.2 Ffocws ar y Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru ac yn atgyfnerthu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i Gymru fod yn genedl groesawgar, ddwyieithog, amrywiol a chynhwysol. Mae Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg yn nodi ein dull hirdymor o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg. Bydd y strategaeth hon yn cefnogi'r gwaith o gyflawni **Mwy na Geiriau: Cynllun Pum Mlynedd (2022-2027),** sef fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' yn ganolog i hyn.

Mae'n rhoi'r cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg, yn hytrach na bod y claf neu'r defnyddiwr gwasanaeth yn gorfod gofyn amdanynt. Mae'r Fframwaith Mwy na Geiriau yn ceisio sbarduno cynnydd drwy ganolbwyntio ar themâu arweinyddiaeth; cynllunio ieithyddol a pholisïau iaith gan gynnwys data; cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu yn awr ac yn y dyfodol; a rhannu arferion da a dull galluogol.

Mae cael cymorth a thriniaeth yn eu hiaith eu hunain yn gallu bod yn arbennig o bwysig, yn enwedig pan fo pobl yn mynd drwy drawma. Wrth roi'r strategaeth ar waith, bydd pwyslais penodol ar hyrwyddo'r defnydd o Ganllawiau AaGIC ar Gynllunio'r Gweithlu ar gyfer y Gymraeg; hyrwyddo'r cyfleoedd i'r gweithlu ddysgu Cymraeg a gwella eu sgiliau Cymraeg – er enghraifft, drwy'r hyfforddiant a'r adnoddau sydd ar gael fel rhan o'r Cynllun **"Cymraeg Gwaith" ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol** gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol; a thrwy gefnogi camau i gofnodi iaith person yn amlach er mwyn cyflawni'r **Cynnig Rhagweithiol**, a darparu gofal diogel, teg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

## 2.3 Croestoriadedd

Croestoriadedd yw'r ffordd y mae strwythurau pŵer sy'n seiliedig ar ffactorau megis rhywedd, hil, rhywioldeb, anabledd, dosbarth, oed a ffydd yn rhyngweithio â'i gilydd i greu anghydraddoldebau, gwahaniaethu a gorthrwm. Mae'n hanfodol deall sut y gall y nodweddion hyn ryngweithio ac arwain at brofiadau unigryw, a lluosog yn aml, o anfantais mewn sefyllfaoedd penodol.

Mae dull gwirioneddol groestoriadol yn sicrhau nad oes un math o wahaniaethu yn cael ei ddeall ar wahân i eraill. Gall cael mwy nag un nodwedd warchodedig waethygu effaith camfanteisio a cham-drin rhywiol ar blant, teuluoedd ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr.

Ym mlwyddyn gyntaf y strategaeth bydd cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu yn cael ei ddatblygu a fydd yn manylu ar sut rydym yn bwriadu ymgysylltu ag unigolion â nodweddion gwarchodedig, gan sicrhau bod eu cyfraniadau'n dylanwadu ac yn llywio polisi ac ymarfer.

Yn ogystal, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i wella ein dulliau o gasglu data ynghylch cam-drin plant yn rhywiol a nodweddion gwarchodedig y rhai yr effeithir arnynt. Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu gwell dealltwriaeth o raddfa a chyffredinrwydd cam-drin a'r ffordd orau o dargedu adnoddau.



> "Dros y degawd nesaf, bydd y strategaeth yn sicrhau bod materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a chroestoriadedd yn cael eu hystyried yn llawn ym mhob ffrwd waith ac fel rhan o ddull cynhwysfawr o ymdrin â newid."

# Adran 3:
# Cam-drin Plant yn Rhywiol – Tystiolaeth a Chyd-destun

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn cwmpasu pob math o niwed rhywiol a brofir gan blant o dan 18 oed. Mae'n cynnwys camdriniaeth drwy law oedolion neu blant eraill a gall ddigwydd mewn ystod eang o gyd-destunau, all-lein ac ar-lein.

**Mae mathau o gam-drin plant yn rhywiol yn cynnwys:**

- cam-drin rhywiol gan oedolion o fewn y teulu, neu sy'n gysylltiedig â'r teulu
- cam-drin rhywiol gan oedolion eraill yr ymddiriedir ynddynt
- ymddygiad rhywiol niweidiol gan frodyr a chwiorydd
- ymddygiad rhywiol niweidiol gan blant a phobl ifanc eraill
- camfanteisio'n rhywiol ar blant gan unigolion neu grwpiau
- cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein, gan gynnwys grŵmio, cam-drin gan ddefnyddio delweddau, a gorelwa rhywiol

Gall technoleg ddigidol fod yn ffactor yn bron pob math o achosion cam-drin plant yn rhywiol, boed fel y prif gyd-destun ar gyfer cam-drin neu fel ffactor hwyluso.

Gall effaith cam-drin plant yn rhywiol bara am oes a gall effeithio ar bob agwedd ar fywyd unigolyn. Er bod profiad pob unigolyn yn unigryw, mae ymchwil wedi nodi'r effeithiau posibl canlynol[9] ar fywydau dioddefwyr-oroeswyr:

- Gorbryder, iselder, anhwylderau bwyta, tarfu ar gwsg, ymdeimlad o ddatgysylltiad, PTSD ac anhwylderau personoliaeth.
- Problemau iechyd corfforol amrywiol, gan gynnwys poen gastroberfeddol, gynaecolegol, cardiopwlmonaidd a chronig.
- Effeithiau ar ddatblygiad seicorywiol a seicogymdeithasol, sy'n effeithio ar weithrediad rhywiol a pherthnasoedd mewn llencyndod ac fel oedolion.
- Er bod rhai dioddefwyr-oroeswyr yn rhianta mewn modd amddiffynnol, mae ffiniau yn peri heriau i rai.
- Mae'r effaith yn amrywio yn ôl oedran y plentyn, ei berthynas â'r camdriniwr, hyd y gamdriniaeth, profiadau eraill mewn plentyndod ac ymatebion i ddatgelu.
- Dylanwadir ar yr effaith hefyd gan ryw, diwylliant, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd[10].
- Mae'r gamdriniaeth yn effeithio ar rieni nad ydynt yn cam-drin ac ar gymdeithas, gyda chostau emosiynol ac ariannol uchel (dros £10 biliwn bob blwyddyn)[11].

[9] Publications & Resources | Key messages from research | CSA Centre [10] Publications & Resources | Key messages from research | CSA Centre [11] The economic and social cost of contact child sexual abuse - GOV.UK

## 3.0

Amcangyfrifir bod 25,000 o blant a phobl ifanc yn cael eu cam-drin yn rhywiol bob blwyddyn yng Nghymru.

Yng Nghymru, mae adroddiad y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, Cam-drin plant yn rhywiol yn 2023/24: Tueddiadau mewn data swyddogol[12] yn dangos bod bron i 6,000 o droseddau cam-drin plant yn rhywiol wedi'u cofnodi gan yr heddlu yn 2023/24 ond mai dim ond 14% o ymchwiliadau yng Nghymru a arweiniodd at benderfyniad i gyhuddo'r troseddwr neu'r troseddwyr.

### Mae llawer mwy o blant yn cael eu cam-drin yn rhywiol nag a nodir gan wasanaethau yng Nghymru



**200** o blant wedi'u rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant oherwydd cam-drin rhywiol

**1,000** o blant wedi'u gweld gan ganolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol

**6,000** o droseddau cam-drin plant yn rhywiol wedi'u cofnodi gan yr heddlu

Amcangyfrifir bod **25,000** o blant yn cael eu cam-drin yn rhywiol bob blwyddyn.**

**Ffynonellau:** Y Swyddfa Gartref, Troseddau a chanlyniadau a gofnodwyd gan yr heddlu, 2023/24; Llywodraeth Cymru, 2025; GIG Cymru, 2024. *Amcangyfrif wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio amcangyfrifon cyffredinrwydd un flwyddyn yn ôl grŵp oedran (Radford et al. 2011) ac amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2023.

[12] Cam-drin plant yn rhywiol yn 2023/24: Tueddiadau mewn data swyddogol



3.0

Mae nifer y plant sy'n cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant o dan y categori cam-drin rhywiol wedi gostwng yn raddol yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf (Karsna a Kelly, 2021). Yn 2023/24, roedd ychydig o dan 200 o blant yng Nghymru wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant oherwydd cam-drin rhywiol, 15% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol a dim ond 5% o'r holl gofrestriadau yn y flwyddyn honno.

Mae'r amrywiad ymhlith awdurdodau lleol yn y defnydd o gofrestriadau oherwydd cam-drin rhywiol yn sylweddol: roedd cyfran y plant yr oedd eu cofrestriad yn cynnwys cam-drin rhywiol fel rheswm, yn amrywio o 0% i 19% o'r holl gofrestriadau amddiffyn plant yn 2023/24. Mae rhagor o wybodaeth am y data lleol yng Nghymru ar gael ar safle **Data Insights Hub** y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Dim ond un o'r mesurau a ddefnyddir yn ddangosydd o gyffredinrwydd cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru yw'r Gofrestr Amddiffyn Plant. Mae hyn yn cyfeirio at nifer y plant a phobl ifanc sydd â chynllun diogelu gofal a chymorth ar waith a bod eu henwau wedi'u hychwanegu at y Gofrestr Amddiffyn Plant oherwydd niwed/cam-drin rhywiol.

Mae rhanddeiliaid yn dweud eu bod yn gweithio gyda llawer mwy o blant a phobl ifanc o dan gynllun gofal a chymorth gwirfoddol, a bod plant â phrofiad o fod mewn gofal yn wynebu risg uchel o gam-drin rhywiol hefyd. Bydd systemau yn cael eu datblygu ar lefel genedlaethol i gofnodi'r profiad hwn. Mae gwella'r broses o gasglu data ac adrodd arnynt, ac ymgorffori dadansoddi data amlasiantaeth, yn flaenoriaeth ar gyfer y strategaeth hon.

## 3.1 Pwy sy'n cael ei effeithio gan gam-drin plant yn rhywiol?

Wrth ystyried cam-drin plant yn rhywiol, mae'r prif ffocws, fel y dylai fod, ar y plentyn sydd wedi profi niwed. Mae sicrhau eu diogelwch a'u llesiant yn parhau i fod yn hollbwysig. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb am ddiogelu yn ymestyn y tu hwnt i'r plentyn unigol. Gall effeithiau cam-drin plant yn rhywiol fod yn bellgyrhaeddol, gan effeithio ar deuluoedd, rhieni/gofalwyr, brodyr a chwiorydd a chymunedau ehangach.

Rhaid i bartneriaeth ddiogelu effeithiol fabwysiadu dull cynhwysfawr sy'n cydnabod y goblygiadau ehangach hyn ac yn sicrhau bod cymorth priodol ar gael i bawb yr effeithir arnynt, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

**Mae hyn yn golygu cydnabod a mynd i'r afael ag anghenion:**

- **Plant sy'n agored i risg o gam-drin rhywiol** - sicrhau ymyrraeth gynnar ac atal.
- **Plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol** - darparu amddiffyniad amserol a chymorth therapiwtig.
- **Rhieni/gofalwyr, brodyr a chwiorydd, ac aelodau ehangach o'r teulu** - a allai brofi trawma, dryswch a gofid wrth iddynt ddelio ag effaith camdriniaeth.
- **Oedolion a gafodd eu cam-drin yn rhywiol yn ystod plentyndod** - y gall eu profiadau barhau i effeithio ar eu llesiant a'u perthnasoedd.
- **Plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol** - y mae arnynt angen ymyriadau wedi'u teilwra i atal niwed pellach ac i hybu datblygiad iach.
- **Teuluoedd plant sydd wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol** - y mae arnynt yn aml angen arweiniad a chymorth i reoli emosiynau ac ymddygiadau cymhleth.
- **Oedolion y mae risg bosibl y byddant yn cam-drin plant yn rhywiol** - lle y gall mesurau rhagweithiol atal camdriniaeth cyn iddi ddigwydd.
- **Oedolion sydd wedi cam-drin plant yn rhywiol** - gan gynnwys y rhai sy'n cymryd rhan mewn troseddau ar-lein fel edrych ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol, gan sicrhau atebolrwydd ac adsefydlu lle bo hynny'n briodol.
- **Teuluoedd oedolion sydd wedi cam-drin plant yn rhywiol** - a allai wynebu stigma, ynysu a chythrwfl emosiynol.

Mae angen dull holistaidd, un sy'n cydbwyso diogelwch, atebolrwydd ac adferiad, ac sy'n cydnabod yr effeithiau rhyng-gysylltiedig ar draws teuluoedd a chymunedau.



## 3.2 Beth yw cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu?

Mae cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu yn cyfeirio at gam-drin rhywiol a gyflawnir gan aelodau o'r teulu neu unigolion mewn cyd-destun teuluol, megis rhieni, brodyr a chwiorydd, llys-rieni, neu berthnasau eraill. Mae'n aml yn digwydd yng nghyd-destun perthnasoedd ac ymddiriedaeth barhaus, gan wneud datgelu yn arbennig o gymhleth. Mae cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu yn cynnwys ystod o ymddygiadau cam-drin rhywiol sy'n cynnwys gweithredoedd â chyswllt a gweithredoedd heb gyswllt sy'n aml yn cydfodoli â mathau eraill o niwed megis camdriniaeth neu esgeulustod emosiynol. Mae deinameg perthnasoedd teuluol yn golygu bod cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu yn aml yn cael ei guddio, a bod dioddefwyr yn wynebu rhwystrau sylweddol rhag cael cydnabyddiaeth a chymorth.

### Cyffredinrwydd cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Mae ymchwil yn dangos bod cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu yn un o'r mathau mwyaf cyffredin o gam-drin plant yn rhywiol. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod rhwng traean a dwy ran o dair o'r holl achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn ymwneud ag aelod o'r teulu. Fodd bynnag, mae ffigurau cyffredinrwydd yn amrywio oherwydd tanadrodd a heriau methodolegol.

Ychydig o ddioddefwyr sy'n datgelu eu profiadau, ac mae llawer yn aros nes eu bod yn oedolion, neu byth yn siarad allan o gwbl. Oherwydd bod cymaint o gam-drin yn parhau i fod yn gudd, mae ystadegau swyddogol yn tanamcangyfrif yn sylweddol pa mor gyffredin yw cam-drin plant o fewn y teulu mewn gwirionedd. Mae hyn yn effeithio ar fechgyn a merched, er bod adroddiadau swyddogol yn nodi'n amlach mai merched yw'r dioddefwyr.

### Amrywiaeth a cham-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd ar draws pob cymuned, diwylliant a grŵp economaidd-gymdeithasol. Er nad yw ymchwil yn dangos un proffil penodol o deuluoedd lle mae cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd o fewn y teulu, gall rhai ffactorau penodol megis ynysu, straen teuluol, a chyfrinachedd wneud plant yn fwy agored i niwed. Gall normau a chredoau diwylliannol ddylanwadu ar ddatgelu ac ymatebion, ac mae rhai cymunedau yn wynebu rhwystrau ychwanegol oherwydd stigma neu'r ofn o chwalu teulu.

Gall plant ag anableddau a'r rhai mewn llys-deuluoedd wynebu risg uwch. Mae deall amrywiaeth yn hanfodol ar gyfer teilwra atal a chymorth, gan sicrhau

3.2

bod ymatebion yn sensitif i amgylchiadau diwylliannol ac amgylchiadau unigolion.

**Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu**

Mae ymatebion effeithiol i gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu yn gofyn am waith amlasiantaeth ar y cyd. Rhaid i weithwyr proffesiynol ar draws gofal cymdeithasol, iechyd, addysg a chyfiawnder troseddol rannu gwybodaeth a chydweithio i ddiogelu plant a chefnogi aelodau o'r teulu nad ydynt yn cam-drin.

Mae meithrin ymddiriedaeth gyda theuluoedd yn hanfodol, yn ogystal â darparu cymorth therapiwtig arbenigol i ddioddefwyr. Dylai strategaethau atal gynnwys codi ymwybyddiaeth, gwella hyder proffesiynol wrth adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu, a mynd i'r afael â rhwystrau systemig rhag datgelu.

Mae angen ymgysylltu hirdymor yn aml, o ystyried yr effaith ddwys y mae cam-drin plant yn rhywiol yn ei chael ar ddioddefwyr a'r deinameg teuluol. Mae angen dull system gyfan sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Dylai gweithwyr proffesiynol:

- Fod yn effro i'r arwyddion a pheidio â dibynnu ar ddatgeliad llafar yn unig.
- Meithrin ymddiriedaeth drwy ddilysrwydd, cydymdeimlad ac eiriolaeth, gan alluogi dewis, rheolaeth a diogelwch.
- Darparu cymorth cynnar a pharhaus, gan gynnwys cymorth therapiwtig sy'n cynnwys gofalwyr nad ydynt yn cam-drin.
- Cryfhau ymarfer amlasiantaeth fel nad yw'n cael ei arwain yn ormodol gan yr heddlu ond yn sicrhau blaenoriaeth ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu ochr yn ochr â materion diogelu eraill.
- Buddsoddi mewn hyfforddiant i godi hyder gweithwyr proffesiynol ynghylch gwadu, tynnu'n ôl a chynllunio ar gyfer diogelwch mewn cyd-destunau teuluol cymhleth.

**Cam-drin rhywiol gan frodyr a chwiorydd**

Mae ymchwil yn dangos bod plant yr un mor debygol o gael eu cam-drin yn rhywiol gan eu brodyr a'u chwiorydd, gan gynnwys llysfrodyr a llyschwiorydd, ag ydynt gan eu rhieni[13].

Mae ymchwil yn dangos y gall cam-drin rhywiol gan frodyr a chwiorydd gael effeithiau difrifol a hirdymor ar iechyd a llesiant goroeswyr. Gall y trawma a brofir arwain at broblemau emosiynol, seicolegol ac ymddygiadol amrywiol. Mae ymdrechion i fynd i'r afael â'r mater hwn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth, darparu cymorth i oroeswyr a gwella ymatebion proffesiynol

[13] Sibling sexual abuse project - SARSAS



3.2

i ddatgeliadau o gam-drin rhywiol gan frodyr a chwiorydd. Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, mae rhanddeiliaid wedi codi'r angen am agwedd teulu cyfan at y mater hwn yn gyson.

Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi dweud bod cam-drin rhywiol gan frodyr a chwiorydd yn fath cyffredin o gam-drin rhywiol sy'n arwain at ganlyniadau dinistriol i'r teulu cyfan. Mae gwahaniaethu rhwng ymddygiad rhywiol normadol ymhlith brodyr a chwiorydd ac ymddygiad camdriniol yn hanfodol ar gyfer ymyrraeth a chymorth effeithiol[14].

Mae cam-drin rhywiol gan frodyr a chwiorydd yn arwain at effeithiau difrifol a hirdymor. Dylai ymatebion i gam-drin o'r fath gydbwyso diogelwch, gwella a chyfiawnder. Rhaid i weithwyr proffesiynol allu adnabod yr ystod o ymddygiadau rhywiol gan frodyr a chwiorydd a deall profiadau'r plant dan sylw.

**Rhaid i ymatebion gydbwyso:**

- diogelwch ar unwaith
- cymorth therapiwtig i'r holl blant dan sylw
- cymorth i rieni a gofalwyr
- atal niwed pellach

Pwysleisiodd rhanddeiliaid yn gyson yr angen am ddull sy'n cynnwys y teulu cyfan, wedi'i ategu gan arweiniad clir, hyfforddiant proffesiynol a mynediad at gymorth arbenigol.

## 3.3 Ymddygiad Rhywiol Niweidiol

**Diffiniad**

Mae ymddygiadau rhywiol niweidiol yn cyfeirio at ymddygiadau rhywiol datblygiadol amhriodol a arddangosir gan blant a phobl ifanc o dan 18 oed sy'n niweidiol iddyn nhw eu hunain neu eraill, gan gynnwys ymddygiadau â chyswllt, heb gyswllt ac ar-lein (Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan, 2019). Mae niwed yr un mor arwyddocaol ar draws cyd-destunau, ac mae angen ymatebion diogelu cymesur, sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar gyfer plant sy'n arddangos ymddygiadau rhywiol niweidiol a'r rhai sy'n cael eu niweidio.

**Cyffredinrwydd**

Mae ymddygiadau rhywiol niweidiol yn parhau i fod yn elfen sylweddol o gam-drin plant yn rhywiol yn y DU. Mae ymchwil yn dangos bod tua thraean o achosion cam-drin plant yn rhywiol â chyswllt yn cael ei gyflawni gan blentyn arall (Radford et al., 2011). Mae'r patrwm hwn wedi aros yn gyson dros amser. Yng Nghymru, mae data'r heddlu ers 2020 yn dangos bod tua

[14] Sibling sexual abuse: A knowledge and practice overview - CSA Centre

3.3

50% o'r bobl a amheuir o gam-drin plant yn rhywiol o dan 18 oed (Tarian ROCU a Hydrant, 2024).

Mae'r rhaglen Dydyn Ni Ddim yn Dweud Wrth Ein Hathrawon (2021) gan Estyn yn nodi mai amgylcheddau ar-lein yw'r cyd-destun mwyaf cyffredin ar gyfer niwed rhywiol rhwng cyfoedion. Er gwaethaf ymwybyddiaeth gynyddol, mae data anghyson yn cyfyngu ar ddealltwriaeth o'r gwir gyffredinrwydd, gan lesteirio'r gwaith o gynllunio a gwerthuso gwasanaethau yn effeithiol.

### Plant sy'n Arddangos Ymddygiadau Rhywiol Niweidiol: Cymhlethdod ac Amrywiaeth

Nid yw plant sy'n arddangos ymddygiadau rhywiol niweidiol yn grŵp unffurf. Mae ymchwil yn dangos lefelau uchel o fregusrwydd, adfyd a thrawma ymhlith y boblogaeth hon yn gyson (McNeish a Scott, 2023). O ran plant hŷn sy'n arddangos ymddygiadau rhywiol niweidiol, bechgyn a chanddynt hanes o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yw'r rhain yn bennaf, er yr effeithir ar ferched a phlant iau hefyd.

Mae tystiolaeth yn tynnu sylw at ymatebion ar sail rhywedd, gyda merched yn fwy tebygol o gael ymyriadau sy'n seiliedig ar les a bechgyn yn amlach yn wynebu ymatebion cyfiawnder troseddol (Hallett et al., 2019). Mae data Barnardo's Cymru yn awgrymu bod tua 50% o'r plant sy'n cael mynediad at wasanaethau ymddygiad rhywiol niweidiol arbenigol hefyd yn profi camfanteisio rhywiol, a bod gan lawer ohonynt hanes o drawma lluosog, heb ei ddatrys..

### Anghenion Gwahanol Grwpiau Penodol

- **Plant iau (cyn y glasoed):** Mae ymddygiadau rhywiol niweidiol yn fwy tebygol o fod gysylltiedig â thrallod neu brofiadau niweidiol, a bod y plentyn yn adweithio, yn mynegi ei deimladau neu'n dynwared ymddygiad y mae wedi'i weld. Mae hyn yn gofyn am ymatebion sy'n briodol o ran cam datblygiad y plentyn.

- **Plant anabl a niwroamrywiol:** Mae'r plant hyn yn cael eu gorgynrychioli fel dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol a'r rhai sy'n arddangos ymddygiadau rhywiol niweidiol, ac maent yn wynebu rhwystrau ychwanegol i ddatgelu, deall niwed a chael mynediad at addysg a chymorth priodol.

### Ymatebion Cymesur ac Ataliol

Mae ymddygiadau rhywiol niweidiol yn bodoli ar hyd continwwm, o ymddygiad amhriodol neu broblematig i weithredoedd camdriniol neu dreisgar (continwwm Hackett). Mae gwahaniaethu rhwng ymddygiad rhywiol



3.3

niweidiol a datblygiad rhywiol normadol yn gymhleth ac yn gofyn am ddealltwriaeth broffesiynol o ddatblygiad iach, cydsyniad a dynameg pŵer.

Mae tystiolaeth yn dangos nad yw'r rhan fwyaf o blant sy'n profi cam-drin rhywiol yn mynd ymlaen i arddangos ymddygiadau rhywiol niweidiol, ac nad yw'r rhan fwyaf o blant sy'n arddangos ymddygiadau rhywiol niweidiol yn troseddu pan fyddant yn oedolion (McNeish a Scott, 2023). Mae adnabod achosion yn gynnar ac ymyrryd yn gynnar felly yn hanfodol.

Fe wnaeth Discovery Project (2019) gan Barnardo's ganfod bod 66% o blant a atgyfeiriwyd am ymddygiadau rhywiol niweidiol a oedd yn gamdriniol neu dreisgar wedi arddangos ymddygiad rhywiol amhriodol o'r blaen, yn aml ar sawl achlysur, gyda theuluoedd yn sôn am gyfleoedd a gollwyd i geisio cymorth yn gynharach.

Nid oes un model unigol o ymyrraeth effeithiol; fodd bynnag, mae tystiolaeth ymchwil ac ymarfer yn cefnogi'r canlynol yn gyson:

- Dulliau holistaidd, seiliedig ar drawma, sy'n canolbwyntio ar blant
- Ymyriadau sy'n cynnwys rhieni a gofalwyr
- Ymarfer amlsystemig sy'n ystyriol o ddatblygiad ac sy'n seiliedig ar gydberthynas
- Addysg atal hirdymor ar sail ysgol gyfan
- Dulliau iechyd cyhoeddus sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywiol a normau niweidiol

### Negeseuon allweddol

- Cryfhau gweithredu cyson a goruchwylio'r llwybr ymddygiadau rhywiol niweidiol cenedlaethol ledled Cymru.
- Gwella casglu data cenedlaethol ar ymddygiadau rhywiol niweidiol, gan gynnwys yn y cyd-destunau ar-lein.
- Blaenoriaethu cymorth ar gam cynnar ac ymatebion ataliol i atal materion rhag gwaethygu.
- Sicrhau tegwch a chymesuredd ar draws rhywedd, oedran, anabledd a daearyddiaeth.
- Ymgorffori lleisiau plant a theuluoedd i lywio cynllunio a gwerthuso gwasanaethau.

## 3.4 Camfanteisio'n rhywiol ar blant

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ymwneud â phlant o dan 18 oed ac mae'n fath o gam-drin plant yn rhywiol sy'n digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn cynnwys plentyn mewn gweithredoedd rhywiol â chyswllt neu heb gyswllt, neu'n ceisio gwneud hynny:

**a.** yn gyfnewid am rywbeth y mae ar y plentyn neu'r person ifanc ei angen neu ei eisiau, a/neu

**b.** ar gyfer budd ariannol, statws uwch neu wobr arall i'r tramgwyddwr.

Gall y peth y mae ar y plentyn ei eisiau neu ei angen gynnwys tynnu rhywbeth yn ôl, er enghraifft bygythiadau i'w niweidio nhw neu rywun sy'n annwyl iddynt. Gall tramgwyddwyr gynnwys rhai nad ydynt efallai yn cymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol eu hunain ond sy'n hwyluso cam-drin rhywiol gan eraill[15].

Nid oes un 'math' penodol o berson sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant. Gall tramgwyddwyr gynnwys y rhai sy'n targedu plant a phobl ifanc yn fwriadol a/neu'n oportiwnistaidd. Mae gorfodaeth a rheolaeth yn cael eu defnyddio'n aml gan dramgwyddwyr a hwyluswyr camfanteisio'n rhywiol ar blant, fel dull o sicrhau bod plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol.

Mae ymchwil yn nodi y gall plant weld perthnasoedd sy'n camfanteisio neu gyfnewidiadau rhywiol camdriniol fel rhai cydsyniol oherwydd anghenion emosiynol heb eu diwallu, trawma, neu ddewisiadau cyfyngedig. Mae rhai plant yn gallu deall eu bod yn cael eu niweidio ond yn cael trafferth gofyn am help oherwydd bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mewn rhyw ffordd neu eu bod yn ofni beth fydd yn digwydd iddynt ac y byddant yn cael eu beio os ydyn nhw'n gofyn am help. Pan fydd grŵmio yn digwydd, gall hyn – all-lein ac ar-lein – gynnwys mynediad o gam i gam, meithrin ymddiriedaeth, bodloni anghenion, ynysu a rhywioli[16].

Yng Nghymru, mae Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 7 – Diogelu rhag Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn diffinio camfanteisio'n rhywiol ar blant fel math o gam-drin plant yn rhywiol ac mae'n ei gwneud yn ofynnol cael dull diogelu amlasiantaeth sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae'r canllawiau statudol hyn yn gymwys i'r holl bartneriaid diogelu datganoledig ac annatganoledig ac maent yn ymgorffori camfanteisio'n rhywiol ar blant o fewn fframwaith deddfwriaethol unigryw Cymru o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

[15] Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl [16] Guide to the OSA and its implementation – Hydref 2025 – fersiwn y we



## 3.4

Mae canfyddiadau academaidd yn cyd-fynd yn agos ag ymarfer a chanllawiau statudol Cymru, sy'n pwysleisio y bydd y ffordd y mae'r plentyn yn deall camfanteisio'n rhywiol yn amrywio o blentyn i blentyn, a bod plant yn aml yn profi camfanteisio ochr yn ochr ag adfyd arall megis esgeulustod, cam-drin emosiynol, mynd ar goll, neu gamfanteisio troseddol[17].

### Cyffredinrwydd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Mae astudiaethau a adolygwyd gan gymheiriaid yn dangos bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn bryder diogelu eang sy'n esblygu. Mae ymchwil ar rwydweithiau troseddwyr yn y DU yn dangos bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn digwydd ar sail rhwydweithiau sy'n hyblyg o ran eu strwythur. Yn aml mae gan y troseddwyr gysylltiad llac â'i gilydd a defnyddir cyfoedion i helpu i recriwtio dioddefwyr[18].

Mae tystiolaeth benodol i Gymru yn atgyfnerthu'r darlun hwn.

- Canfu astudiaeth **Cadw'n Ddiogel?** (Prifysgol Caerdydd), sy'n archwilio 10 mlynedd o waith achos camfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru yn ymwneud â 205 o blant, bod lefelau uchel o drawma, anghenion cymhleth, cam-drin rhywiol blaenorol o fewn teulu a'r tu allan i'r teulu, ac ansefydlogrwydd hirdymor yn y canlyniadau[19].
- Nododd **Adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Canllawiau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant** bod dealltwriaeth ymarferwyr yn amrywio, bod asesu anghyson yn digwydd gan ddefnyddio'r SERAF, a bod camsyniadau eang ynghylch cydsyniad, galluogedd a chyfnewid[20].
- Mae ymchwil academaidd ynghylch gweithredu polisïau yn dangos, flwyddyn ar ôl eu cyflwyno, nad oedd nifer o ymarferwyr yng Nghymru yn ymwybodol o'r canllawiau newydd yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant – gan dynnu sylw at heriau mawr o ran gweithredu a sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol[21].

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein yn cynyddu'n gyflym ac mae cysylltiad agos rhyngddo a niwed seicolegol sylweddol. Mae adolygiad systematig o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein yn dangos cymhlethdod cynyddol mewn grŵmio technolegol, gorfodi, a gorelwa rhywiol[22].

[17] Diogelu Cymru [18] Summary of the National audit on group-based child sexual exploitation and abuse | NSPCC Learning [19]https://www.anncrafttrust.org/keeping-safe-an-analysis-of-work-with-sexually-exploited-young-people-in-wales/ [20]Adolygiad o'r Canllawiau Statudol ar Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol yng Nghymru [21]Deall gweithredu polisi gofal cymdeithasol plant yng Nghymru: Astudiaeth o'r canllawiau newydd ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant | Ymchwil Gofal Iechyd Cymru
[22]camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin

3.4

Mae dogfennau diogelu cenedlaethol Cymru yn cadarnhau bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar draws y byrddau diogelu rhanbarthol, gan gynnwys yr angen am drothwyon cyson, llwybrau amlasiantaeth, a chynlluniau tarfu sy'n gyson â'i gilydd[23].

### Amrywiaeth ymhlith plant yr effeithir arnynt gan gamfanteisio rhywiol

Mae ymchwil academaidd yn dangos yn gyson bod plant yr effeithir arnynt gan gamfanteisio rhywiol, ledled y DU ac yng Nghymru, yn garfan gymysgryw sydd wedi'i siapio gan sawl math o fregusrwydd sy'n gorgyffwrdd.

Mae ymchwil benodol i Gymru yn darparu enghreifftiau clir:

- Canfu'r **Adolygiad o Ganllawiau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Cymru** fod gan blant sy'n agored i niwed neu sydd â phrofiadau o gam-drin rhywiol drwy gamfanteisio yng Nghymru yn aml hanes o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, tarfu ar addysg, straen sy'n gysylltiedig â thlodi, a rhwydweithiau cefnogol cyfyngedig.
- Mae'r astudiaeth **Cadw'n Ddiogel?** wedi nodi lefelau uchel o drawma, anawsterau iechyd meddwl, llety ansefydlog, perthnasoedd teuluol gwael, a phrofiad blaenorol o gam-drin rhywiol. Mae llawer o blant wedi profi niweidiau sy'n gorgyffwrdd gan gynnwys cam-drin rhywiol, cam-drin corfforol a chamfanteisio'n droseddol ar blant.

Mae'r rhain yn blant y mae eu profiadau a'u hamgylchiadau yn ei gwneud hi'n fwy tebygol bod ganddynt anghenion heb eu diwallu a hunan-barch gwael. Mae hyn yn ei dro yn golygu eu bod yn agored i gamfanteisio.

Mae ymchwil academaidd ar grŵmio yn nodi ffactorau sy'n gwneud unigolyn yn agored i niwed, megis anabledd, anaeddfedrwydd datblygiadol, ynysu, a cham-drin blaenorol. Mae'r canfyddiadau hyn yn ategu Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan, sy'n pwysleisio bod plant anabl a phlant ag anghenion cyfathrebu yn wynebu rhwystrau uwch o ran adnabod neu adrodd am gamfanteisio rhywiol.

Mae ymchwil arall hefyd yn dangos bod rhagdybiaethau yn ymwneud â rhywedd yn dylanwadu ar asesiadau risg – mae merched yn fwy tebygol o gael eu hystyried yn rhai sy'n gwneud "dewisiadau peryglus", ac mae bechgyn yn cael eu tangydnabod o hyd – mater a adlewyrchir hefyd yn adolygiadau amlasiantaeth Cymru[24].

[23]Dogfen Strategaeth Camfanteisio ar Blant
[24]Confronting group-based child sexual exploitation in the UK - Humanium



3.4

### Ymatebion i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Mae ymchwil academaidd yn tynnu sylw at yr angen am ymatebion sy'n seiliedig ar drawma, sy'n briodol yn ddatblygiadol ac yn gyfannol, gan fynd i'r afael ag anghenion gofal a chymorth plant. Rhaid i asesiad effeithiol fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o anghenion gofal a chymorth plentyn gan gynnwys yr hyn sy'n bwysig iddynt, ochr yn ochr â'u hanes trawma, cyd-destun perthynol, llesiant seicolegol, a dealltwriaeth o'u camdriniaeth.

Mae'r egwyddorion academaidd hyn yn cyd-fynd yn gryf â dyletswyddau statudol penodol i Gymru yn **Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 7,** sy'n gofyn am:

- ddiogelu sy'n canolbwyntio ar blant, ac yn seiliedig ar hawliau
- gweithdrefnau amlasiantaeth cyson ledled Cymru
- ymyrraeth gynnar ac atal
- tarfu ar dramgwyddwyr mewn modd cydgysylltiedig
- gofal a chymorth cyfannol sy'n blaenoriaethu adferiad
- llwybrau cyfiawnder clir sy'n ystyriol o blant.

Mae llenyddiaeth academaidd ar ymddygiad troseddwyr yn tanlinellu pwysigrwydd deall camau grŵmio a mathau o droseddu digidol i helpu i'w hadnabod yn gynnar a tharfu arnynt yn effeithiol[25].

Mae ymchwil ar atal yn dangos nad yw codi ymwybyddiaeth ar ei ben ei hun yn ddigonol; rhaid i raglenni effeithiol sicrhau bod unigolion yn llai agored i niwed, a dyna pam y mae'r strategaeth hon yn gysylltiedig â dulliau atal ehangach.

[25] Guide to the OSA and its implementation - October 2025 - web version

## 3.5 Cam-drin a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant Ar-lein (OCSEA)

Noder: gellir cyfeirio at hyn hefyd fel Cam-drin a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant drwy Gymorth Technoleg (TACSEA)

### Diffiniad

Mae cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein yn digwydd pan fydd technoleg ddigidol neu dechnoleg ar-lein yn cael eu defnyddio ar unrhyw gam mewn camdriniaeth. Gall hyn ddigwydd ar-lein yn unig neu symud rhwng cyswllt ar-lein ac all-lein. Mae'n cynnwys:

- Creu neu rannu deunydd sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol (CSAM)
- Grŵmio ar-lein a negeseuon rhywiol
- Cam-drin rhywiol wedi'i ffrydio'n fyw
- Blacmel rhywiol
- Rhannu delweddau rhywiol dan bwysau neu'n ddigroeso
- Aflonyddu neu fygythiadau ar-lein
- Dod i gysylltiad â phornograffi

Mae OCSEA yn cynyddu oherwydd bod technolegau newydd (gan gynnwys AI) yn ei gwneud yn haws creu a rhannu cynnwys niweidiol. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan a Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 7 – Diogelu Plant rhag Camfanteisio Rhywiol yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr gydnabod bod cam-drin ar-lein yr un mor ddifrifol â cham-drin â chyswllt, ac ymateb mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar blant ac yn seiliedig ar hawliau.

Her fawr yw bod gwledydd a sectorau yn defnyddio termau gwahanol. Mae hyn yn arwain at ddryswch ac yn ei gwneud yn anoddach amddiffyn plant:

- Defnyddir yr acronym OCSEA yn rhyngwladol.
- Mae TACSEA/TACSA yn gyffredin yn y DU ac mae'n tynnu sylw at y ffaith bod yn rhaid trin camdriniaeth sy'n cynnwys technoleg fel cam-drin rhywiol gwirioneddol, nid "llai difrifol".
- Mae CSAM (deunydd cam-drin plant yn rhywiol) yn pwysleisio na all plant gydsynio i fod mewn delweddau rhywiol.

Gall termau gwahanol arwain at amddiffyniad anghyfartal i ddioddefwyr ar-lein – rhywbeth y mae'r strategaeth hon wedi ymrwymo i'w osgoi.

Mae risgiau ar-lein yn bodoli ar draws pedwar categori:

- Cynnwys y mae plant yn ei weld
- Cyswllt gan eraill
- Ymddygiad (gweithredoedd plant eu hunain ar-lein)
- Contract (risgiau masnachol fel sgamiau neu gamfanteisio)

Nid yw pob risg ar-lein yn arwain at niwed. Mae p'un a yw niwed yn digwydd ai peidio yn dibynnu ar amgylchiadau'r plentyn, dyluniad y llwyfan, a'r nodweddion diogelwch sydd ar gael.



## 3.5

Mae tystiolaeth yn dangos bod y rhan fwyaf o achosion o grŵmio ar-lein yn dechrau mewn negeseuon preifat, nid ar lwyfannau cyhoeddus. Mae troseddwyr yn aml yn symud plant o safleoedd cyhoeddus i apiau wedi'u hamgryptio, lle mae'n anoddach canfod y gamdriniaeth.

### Cyffredinrwydd

Mae tystiolaeth yn fyd-eang ac yn y DU yn dangos bod cam-drin yn digwydd ar raddfa fawr a'i fod yn cynyddu:

**Data byd eang**

- Mae dros 300 miliwn o blant wedi profi camfanteisio neu gam-drin rhywiol ar-lein yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae 1 o bob 8 o blant wedi cael cais rhywiol ar-lein.
- Mae 1 o bob 8 o blant wedi cael achos o rywun yn dangos delweddau rhywiol iddynt, neu'n eu hanfon atynt, heb eu caniatâd.

**Data y DU**

- Cadarnhaodd yr Internet Watch Foundation bod 291,273 o dudalennau gwe yn cynnwys CSAM yn 2024, 91% ohonynt wedi'u hunangynhyrchu gan blant.
- Cynyddodd URLs yn ymwneud â CSAM a gynhelir yn y DU cymaint â 244% mewn blwyddyn.
- Cofnodwyd 7,263 o droseddau grŵmio ar-lein y llynedd – cynnydd o 99% ers 2017/18. Roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â merched, ac roedd y dioddefwr ieuengaf yn bedair oed.

Nid oes gan Gymru ddata cynhwysfawr am gyffredinrwydd achosion oherwydd problemau dadgyfuno, ond mae'r hyn sy'n hysbys yn dangos niwed cynyddol:

- Mae troseddau grŵmio ar-lein wedi dyblu ers 2017/18.
- Cofnodwyd 549 o droseddau yn 2024, a chofnodwyd y nifer uchaf gan Heddlu De Cymru.

Mae'r Strategaeth yn ymrwymo i gryfhau argaeledd data a dadansoddi data ar lefel Cymru.

### Effaith

Gall camfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein achosi niwed difrifol a pharhaol, hyd yn oed heb gyswllt corfforol. Mae tystiolaeth yn dangos y gall plant brofi:

- Iselder, gorbryder, ofn a chywilydd
- Symptomau Straen Wedi Trawma
- Hunan-feio a gofid emosiynol hirdymor
- Ail-fyw'r dioddef yn barhaus pan fydd delweddau o gamdriniaeth yn cylchredeg ar-lein
- Mwy o debygolrwydd o fod yn agored i gamfanteisio pellach

3.5

Gall cam-drin a brofir mewn amgylcheddau rhithwir neu ymgollol fod mor niweidiol yn seicolegol â cham-drin rhywiol corfforol. Yn aml nid yw gweithwyr proffesiynol yn sylweddoli maint y niwed hwn oherwydd bod y cam-drin yn digwydd ar-lein.

Mae OCSEA yn fater iechyd y cyhoedd sy'n effeithio ar wasanaethau iechyd meddwl, ysgolion, teuluoedd a chymunedau. Mae dull gweithredu Cymru yn cynnwys:

- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 7 (canllawiau statudol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant)
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan – Canllaw Cam-drin Ar-lein
- Y Cynllun Gweithredu ar Gadernid Digidol mewn Addysg
- Ymrwymiad i Ymateb Cenedlaethol Enghreifftiol WeProtect
- Gweithio i sicrhau bod dioddefwyr OCSEA yn cael amddiffyniad a chymorth cyfartal â dioddefwyr cam-drin â chyswllt.

Mae'r strategaeth hon wedi ymrwymo i ymgorffori OCSEA o fewn yr ymateb ehangach i gam-drin plant yn rhywiol, gan sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cymorth.

**Negeseuon Allweddol**

- Mae cam-drin rhywiol ar-lein yn gam-drin rhywiol go iawn.
- Mae technoleg yn galluogi mathau newydd o gamfanteisio, sy'n aml yn gudd ac yn datblygu'n gyflym.
- Nid yw llawer o blant yn adnabod cam-drin, ac weithiau nid yw gweithwyr proffesiynol yn rhoi digon o ystyriaeth iddo.
- Mae OCSEA yn eang, yn ddifrifol ac yn tyfu, gan gynnwys yng Nghymru.
- Mae niwed ar-lein yn gofyn am ymateb system gyfan sy'n seiliedig ar iechyd y cyhoedd ac sy'n rhoi'r plentyn yn ganolog.
- Mae gan Gymru fframweithiau cryf ar waith ond mae angen gwell data, cysondeb ac ymyrraeth gynnar.
- Rhaid i'r cymorth fynd i'r afael â'r niwed seicolegol yn ogystal â'r risgiau parhaus a grëir gan ddelweddau cyson ar-lein.



"Wrth ystyried cam-drin plant yn rhywiol, mae'r prif ffocws, fel y dylai fod, ar y plentyn sydd wedi profi niwed. Mae sicrhau eu diogelwch a'u llesiant yn parhau i fod yn hollbwysig."

# Adran 4: Lleisiau plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr

## 4.1 Negeseuon allweddol gan blant

### Ystyriwyd yn ofalus sut y gellid cynnwys lleisiau plant a phobl ifanc yn y strategaeth a'r cynllun cyflawni heb y risg o achosi trawma o'r newydd.

Comisiynwyd Adolygiad Cyflym o'r pum mlynedd diwethaf o ymchwil ryngwladol a oedd yn cynnwys siarad gyda phlant a gwrando arnynt, lle gwnaethant fynegi barn ar sut i atal cam-drin plant yn rhywiol, effeithiolrwydd yr ymateb diogelu amlasiantaeth i gam-drin plant yn rhywiol a'r cymorth a gynigiwyd iddynt / a gawsant.

Gofynnwyd i'r awdur gofnodi unrhyw arferion da a nodwyd gan blant a phobl ifanc ac, yn ogystal, cofnodi unrhyw negeseuon ganddynt am sut y gellir gwella hyn.

Defnyddiwyd crynodeb o'r materion a nodwyd gan blant a phobl ifanc i ddatblygu datganiadau sy'n disgrifio'r hyn y dylai arferion da ei olygu. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y tabl isod ac maent wedi cael eu defnyddio i lunio camau gweithredu yng Nghynllun Cyflawni 2026-2029.

| Mater a nodwyd | Beth mae da yn ei olygu... |
|---|---|
| Naill ai nid yw cyrsiau diogelwch ar-lein yn bodoli neu maent yn annigonol i'w hamddiffyn rhag y bygythiadau y maent yn eu hwynebu ar-lein. | Mae cyrsiau diogelwch ar-lein ar gael ac maent yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol ac ymddygiadau rhywiol niweidiol. |
| Nid oedd plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod wedi cael yr offer cywir i reoli eu diogelwch ar-lein. | Mae addysg diogelwch yn darparu'r offer a'r wybodaeth i blant a phobl ifanc i leihau eu risg yn sgil cam-drin plant yn rhywiol ac ymddygiadau rhywiol niweidiol. |
| Oedolion ddim yn deall pwysigrwydd y byd ar-lein i blant a phobl ifanc, a'r risgiau y maent yn eu hwynebu. | Mae gan ofalwyr ac oedolion arwyddocaol eraill ddigon o wybodaeth am ddiogelwch a risg ar-lein i gefnogi plant a phobl ifanc. |
| Mae addysg rhyw mewn ysgolion wedi dyddio ac yn annigonol. | Mae'r cwricwlwm addysg rhyw wedi'i gynllunio ar y cyd â phlant a phobl ifanc, gan sicrhau bod y cynnwys yn berthnasol ac yn ddefnyddiol. |
| Nid yw darparwyr platfformau ar-lein yn cymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch eu defnyddwyr. | Mae darparwyr platfformau ar-lein yn rhagweithiol yn eu dull o amddiffyn eu defnyddwyr, gan ganolbwyntio ar atal niwed a chymryd camau pan fydd niwed/troseddau yn cael eu nodi. |

| Mater a nodwyd | Beth mae da yn ei olygu... |
|---|---|
| Mae teulu ac oedolion eraill (gan gynnwys ysgolion) yn teimlo'n anghyfforddus yn siarad am gyrff a rhyw, gan ei gwneud yn anoddach fyth trafod camdriniaeth. | Mae gofalwyr ac oedolion perthnasol eraill yn ymladd stigma drwy drafod pynciau sy'n gysylltiedig â chyrff a rhyw yn agored. |
| Mae rhwystrau diwylliannol fel beio'r dioddefwyr a chywilydd neu stigma ynghylch cam-drin yn atal datgelu.<br><br>Rhwystrau diwylliannol i ddatgelu ar gyfer bechgyn a dynion ifanc, ac LHDTC+, gan gynnwys peidio â chael eu gweld fel dioddefwr a theimlo na fydd unrhyw un yn eu credu. | Mae'r sylfaen dystiolaeth wedi'i defnyddio i gynyddu dealltwriaeth o natur ymddygiad rhywiol plant ac ymddygiadau rhywiol niweidiol mewn plant a phobl ifanc, a'r oedolion sy'n ymateb iddynt. |
| Mae cywilydd ac euogrwydd yn gweithredu fel rhwystr i ddatgelu a cheisio cymorth.<br><br>Pryder am lesiant y troseddwr pe baent wedi datgelu, a phryder yn ffactor ataliol o ran datgelu.<br><br>Oedi cyn datgelu oherwydd nad oedd plant a phobl ifanc yn ystyried y cam-drin yn ddifrifol ar y pryd | Mae plant a phobl ifanc yn cael eu haddysgu am gam-drin plant yn rhywiol ac ymddygiadau rhywiol niweidiol, gan gynnwys agweddau fel oedran cydsynio a diffiniadau cyfreithiol o niwed a chamdriniaeth. |
| Ofn stigma wrth gael mynediad at gymorth seicolegol ac emosiynol. | Mae cymdeithas yn cydnabod budd cymorth seicolegol, ac mae hyn yn cael ei gadarnhau wrth blant a phobl ifanc gan y rhai o'u cwmpas. |
| Ymwybyddiaeth isel o lwybrau a mecanweithiau datgelu.<br><br>Ymwybyddiaeth isel o opsiynau cymorth a beth sy'n digwydd ar ôl datgelu. | Mae addysg rhyw mewn ysgolion yn cynnwys manylion am ble i ddatgelu a beth fydd yn digwydd wedyn, gan gynnwys gwasanaethau cymorth, cyfiawnder troseddol a phrosesau perthnasol eraill (e.e. meddygol) |
| Nid yw gweithwyr proffesiynol sy'n cael datgeliad o gam-drin rhywiol ar-lein yn deall natur y drosedd/niwed a sut i ymateb. | Mae gweithwyr proffesiynol yn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth ddiweddaraf am fathau o niwed a cham-drin ar-lein er mwyn ymateb yn effeithiol i ddatgeliadau. |



| Mater a nodwyd | Beth mae da yn ei olygu... |
|---|---|
| Mae plant a phobl ifanc yn datgelu ac nid ydynt yn cael eu credu.<br><br>Nid yw gweithwyr proffesiynol yn gwybod sut i ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n datgelu achosion o gam-drin rhywiol ac ymddygiadau rhywiol niweidiol. | Mae plant a phobl ifanc yn cael eu credu gan y rhai y maent yn dweud wrthynt, gan fod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i gael datgeliad gan bobl ifanc. |
| Mae pryderon am gyfrinachedd a bod yn ddienw ar ôl datgelu yn rhwystr rhag adrodd.<br><br>Mae profiadau negyddol o ymatebion gwasanaeth statudol i ddatgelu yn atal datgelu yn y dyfodol. | Mae plant a phobl ifanc yn gwybod eu hawliau ac yn hyderus yn y mesurau sydd ar waith i'w sicrhau.<br><br>Mae gweithgareddau o ran gwella'r ymateb i gam-drin plant yn rhywiol ac ymddygiad rhywiol niweidiol yn cael eu cyhoeddi'n eang, gan gynnwys i ysgolion ac ymarferwyr yn benodol. |
| Fe wnaeth amseroedd aros hir i'r cymorth ddechrau arwain at blant a phobl ifanc yn teimlo nad oeddent yn bwysig gan gynyddu pryderon ynghylch peidio â chael eu credu.<br><br>Roedd nifer cyfyngedig o sesiynau yn atal unrhyw ymyrraeth therapiwtig ystyrlon, gan achosi trawma o'r newydd i'r person ifanc yn aml.<br><br>Darpariaeth cymorth anghyson lle daeth cymorth i ben heb rybudd neu pan roedd yr ymarferydd wedi newid heb ymgynghoriad.<br><br>Anhawster o ran cael mynediad at wasanaethau cymorth oherwydd lleoliadau gwledig a'r angen i deithio pellteroedd hir.<br><br>Diffyg dewis yn y math o gymorth a ddarperir.<br><br>Diffyg dewis o ymarferwyr sy'n darparu'r cymorth. | Mae'r cymorth yn digwydd ar unwaith neu, os oes rhestrau aros am wasanaethau, mae'r plentyn yn cael gwybod am hyn ac yn cael diweddariadau. Awgrymir opsiynau eraill ar gyfer cymorth ar gyfer y cyfnod interim.<br><br>Mae'r cymorth wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn ac mae ymdeimlad clir o'r amcanion a chanlyniadau'r ymyrraeth therapiwtig y mae'r plentyn wedi cael cymorth i'w nodi.<br><br>Mae newidiadau yn cael eu cyfathrebu'n glir ac mewn da bryd.<br><br>Mae plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn cael mynediad cyfartal â'r rhai mewn ardaloedd trefol a maestrefol.<br><br>Mae'r math o gymorth yn cael ei bennu gan yr unigolyn a'r anghenion y mae wedi cael cymorth i'w nodi.<br><br>Gall gwasanaethau gymryd amser i baru ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Pan nad yw perthnasoedd therapiwtig effeithiol yn datblygu, nid yw'r broses ar gyfer ailddyrannu yn rhoi'r defnyddiwr gwasanaeth o dan anfantais. |

## 4.1

Y bwriad o gychwyn cyntaf y gwaith hwn yn 2023 yw sefydlu grŵp cynghorol plant a phobl ifanc i weithio gyda chydweithwyr polisi, strategaeth ac ymarfer drwy gydol y degawd nesaf i lywio pob rhan o'r strategaeth a llunio camau gweithredu yn y cynlluniau cyflawni. Byddai hwn yn grŵp a fyddai'n ysgogi newid yn ogystal â chynghori gweithwyr proffesiynol ar yr hyn a fyddai'n gweithio'n dda o'u safbwynt nhw.

Bydd partneriaid allweddol o wasanaethau'r trydydd sector sy'n cefnogi plant a phobl ifanc yn rhoi cyngor a chymorth i ddatblygu'r grŵp cynghorol plant a phobl ifanc.

Argymhellodd yr Adolygiad Cyflym y dylid gwneud cysylltiadau â fforymau eraill er mwyn i blant a phobl ifanc ymgynghori ac ymgysylltu mor eang â phosibl ar faterion penodol e.e. Fforymau Ieuenctid. Adlewyrchir hyn yng Nghynllun Cyflawni 2026-2029, manylir arno yn y Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu sy'n cael ei ddatblygu yn y flwyddyn gyntaf, a bydd yn parhau drwy gydol oes y strategaeth.

## 4.2 Sicrhau bod lleisiau oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr yn cael eu clywed drwy gydol oes y Strategaeth

Mae lleisiau oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr wedi bod yn ganolog i ddatblygu'r strategaeth, a bydd hyn yn parhau drwy gydol y degawd nesaf. Bydd grŵp cynghorol ar gyfer oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr yn rhan o'r strwythur cyflawni ac ni fydd yn derbyn syniadau proffesiynol yn oddefol ond yn chwarae rhan weithredol wrth ddatblygu camau gweithredu a'u rhoi ar waith, a dal Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol i gyfrif am y cynnydd sy'n cael ei wneud.

Mae partneriaid allweddol yn y trydydd sector, gan gynnwys grwpiau dioddefwyr-oroeswyr o bob cwr o Gymru, yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r grŵp cynghorol er mwyn sicrhau bod rôl dioddefwyr-oroeswyr yn cael ei gwerthfawrogi'n amlwg drwy ddarparu tâla chydnabyddiaeth a'u bod yn cael eu cefnogi'n briodol drwy gydol y broses ymgysylltu.

I gydnabod nad oes 'un ateb addas i bawb' o ran ymgynghori ac ymgysylltu â dioddefwyr-oroeswyr, edrychir ar ffyrdd eraill y gall dioddefwyr-oroeswyr gyfrannu yn ogystal.



> "Mae lleisiau oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr wedi bod yn ganolog i ddatblygu'r strategaeth, a bydd hyn yn parhau drwy gydol y degawd nesaf."

# Adran 5: Atal, Diogelu, Ymateb a Chefnogi

## Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar bedwar amcan strategol allweddol:

1. Atal cam-drin plant yn rhywiol
2. Amddiffyn plant pan fo pryderon am gam-drin plant yn rhywiol
3. Cefnogi plant, rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin, brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu
4. Cefnogi oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr

Mae ymateb amlasiantaeth cryf a chydgysylltiedig yn hanfodol i wireddu'r weledigaeth o Gymru lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn ddiogel rhag cam-drin rhywiol, lle mae teuluoedd yn cael cymorth amserol ac effeithiol, a lle gall oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr adfer a ffynnu. Mae cyflawni'r weledigaeth hon yn gofyn am gydweithrediad parhaus ar draws y system ddiogelu gyfan, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'u partneriaid cyfansoddol, asiantaethau statudol, y trydydd sector, a chymunedau.

Mae rhanddeiliaid allweddol yn credu'n gryf y bydd rhoi'r camau gweithredu canlynol ar waith yn creu sylfaen gadarn ar gyfer yr holl weithgareddau eraill sy'n cael eu cynnal o dan y strategaeth.

**Y rhain yw:**

### 1. Datblygu ac ymgorffori set ddata graidd genedlaethol

Mae datblygu ac ymgorffori set ddata graidd genedlaethol yn hanfodol i gryfhau ymateb system gyfan Cymru i gam drin plant yn rhywiol. Ar hyn o bryd, mae diffyg data cyson, cymaradwy ar draws asiantaethau yn cyfyngu ar ein gallu i ddeall yn llawn y cyffredinrwydd, y patrymau niwed, y galw ar wasanaethau, a'r canlyniadau i blant, teuluoedd, ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr.

Bydd set ddata graidd yn creu sylfaen wybodaeth a rennir sy'n cael ei chasglu yn yr un ffordd ar draws pob rhanbarth a sector, gan alluogi darlun cliriach o risgiau ac anghenion. Bydd hyn yn helpu i wneud gwell penderfyniadau ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, yn gwella gallu asiantaethau i nodi bylchau yn y ddarpariaeth, ac yn creu dealltwriaeth fwy cywir o'r hyn sy'n gweithio o ran atal, amddiffyn ac adfer. Mae cysondeb mewn casglu data hefyd yn cryfhau atebolrwydd drwy sicrhau bod y system ddiogelu yn gallu mesur cynnydd yn erbyn amcanion strategol a nodi meysydd sydd angen eu targedu i'w gwella.

Wrth symud ymlaen, bydd y set ddata graidd yn gweithredu fel offeryn canolog ar gyfer cynllunio, goruchwylio a gwella parhaus. Bydd yn helpu

## 5.0

Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol i fonitro tueddiadau, dyrannu adnoddau'n fwy effeithiol, a chomisiynu gwasanaethau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Dros amser, bydd y set ddata yn galluogi dadansoddiad cyfoethocach o drywydd plant drwy'r system ddiogelu, yn tynnu sylw at wahaniaethau mewn mynediad neu brofiad, ac yn llywio gwelliannau mewn llwybrau amlasiantaeth ac anghenion hyfforddi.

Yn hollbwysig, bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau plant, teuluoedd ac oedolion sy'n oroeswyr yn cael eu hadlewyrchu'n well yn ein dealltwriaeth o berfformiad y system. Drwy ymgorffori'r set ddata graidd o fewn ymarfer rheolaidd, bydd Cymru'n cryfhau ei gallu i ddarparu dull cydgysylltiedig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth o atal cam-drin plant yn rhywiol a chefnogi pawb yr effeithir arnynt.

### 2. Ymgorffori Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol

Mae gweithlu medrus a hyderus yn ganolog i ymarfer amlasiantaeth effeithiol. Mae'r strategaeth yn ymrwymo i ymgorffori fframwaith hyfforddi cenedlaethol sy'n cefnogi pob gweithiwr proffesiynol i:

- adnabod pryderon yn gynnar,
- ymateb yn hyderus ac yn briodol,
- cymhwyso dulliau sy'n ystyriol o drawma, a
- rhannu gwybodaeth yn ddiogel ac yn effeithiol.

Bydd y sylfaen gyffredin hon yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau amlasiantaeth yn cael eu gwneud amserol, eu bod yn canolbwyntio ar y plentyn, ac yn cael eu llywio gan arferion gorau. Mae'r diagram isod yn esbonio rolau'r sector statudol a gwasanaethau trydydd sector.



**Y Sector Statudol**

**1** **Mae ymarferwyr yn gwybod beth y gallant ei wneud yn eu rôl ac yn gallu:**
- Nodi pryderon
- Ymateb yn briodol i'r plentyn a'r teulu


**2** **Mae ymarferwyr yn gwybod beth y gallant ei wneud yn eu rôl ac yn gallu:**
- Nodi pryderon
- Ymateb yn briodol i'r plentyn a'r teulu
- Cefnogi'r plentyn a'r teulu

**3** **Mae ymarferwyr yn gwybod beth y gallant ei wneud yn eu rôl ac yn gallu:**
- Nodi pryderon
- Ymateb yn briodol i'r plentyn a'r teulu
- Cefnogi'r plentyn a'r teulu
- Asesu a rheoli risg

**4** **Mae ymarferwyr yn gallu:**
- Nodi pryderon a deall trothwyon
- Ymateb yn briodol i'r plentyn a'r teulu
- Ymchwilio i bryderon
- Asesu risg a niwed

**5** **Mae ymarferwyr:**
- Yn glir ynghylch trothwyon
- Yn gallu gwrando ar y plentyn a'r teulu a'u cefnogi, a'u cadw yn y darlun

**6** **Mae ymarferwyr yn gallu gwrando ar y plentyn a'i gefnogi**



5.0

### 3. Ymgorfforir Llwybrau Cenedlaethol i Wella Cydgysylltu

Mae llwybrau cenedlaethol clir yn cefnogi ymatebion amlasiantaeth cyson ac yn lleihau amrywiadau rhanbarthol. Rhoddir blaenoriaeth i ymgorffori'r llwybr amlasiantaeth cenedlaethol ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol, gan sicrhau ei fod yn cael ei ddeall yn llawn a'i gymhwyso'n rheolaidd ar draws yr holl sectorau perthnasol.

Bydd y llwybr cenedlaethol ar gyfer ymateb i ymddygiad rhywiol niweidiol yn parhau i gael ei ymgorffori a'i adolygu, gyda'r hyn a ddysgwyd o ymarfer yn cyfrannu at waith gwella parhaus. Bydd defnyddio'r llwybrau hyn yn effeithiol yn cryfhau cydgysylltu, yn gwella hyder proffesiynol ac yn darparu llwybrau cliriach i blant a theuluoedd sy'n gofyn am help.

Yn ogystal, nod y strategaeth a'r camau gweithredu yn y cynllun cyflawni yw:

**Lleihau Rhwystrau rhag Codi Pryderon**

Mae ymatebion amlasiantaeth effeithiol yn dibynnu ar godi pryderon yn gynnar. Fodd bynnag, gall gweithwyr proffesiynol, teuluoedd a chymunedau wynebu rhwystrau emosiynol, diwylliannol neu ymarferol sy'n gwneud hyn yn anodd. Mae'r strategaeth yn ymrwymo i ddeall y rhwystrau hyn a mynd i'r afael â nhw drwy well gwybodaeth, ymwybyddiaeth cyhoeddus cryfach, a chanllawiau hygyrch ar beth i'w wneud pan fydd pryderon yn codi.

Bydd gwella hyder y cyhoedd i adnabod ac adrodd am bryderon yn cefnogi ymyrraeth gynharach a chanlyniadau gwell i blant ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr.

**Gwella Llwybrau Cymorth i Blant, Teuluoedd ac Oedolion sy'n Oroeswyr**

Mae gwell cymorth cydgysylltiedig yn hanfodol ar gyfer adferiad. Mae hyn yn cynnwys mapio'r ddarpariaeth gyfredol, gwella strwythurau comisiynu, ac ymgorffori dulliau sy'n ystyriol o drawma mewn gwasanaethau rheng flaen. Rhaid i'r system amlasiantaeth ymateb nid yn unig i anghenion plant a phobl ifanc, ond hefyd i anghenion rhieni, gofalwyr, brodyr a chwiorydd nad ydynt yn cam-drin, ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr.



5.0

Bydd deall profiadau byw y rhai yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol yn llywio datblygiad gwasanaethau sy'n ymatebol, yn hygyrch ac yn gynaliadwy.

**Cyfraniad meysydd polisi eraill yn Llywodraeth Cymru**

Yn ogystal â'r hyn a fydd yn cael ei gyflawni o dan y Strategaeth hon, mae ystod o feysydd polisi yn Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at gyflawni gweledigaeth y strategaeth, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Er enghraifft, mae mynd i'r afael â thlodi plant yn chwarae rhan hanfodol o ran lleihau risg. Mae plant sy'n byw mewn tlodi yn fwy tebygol o brofi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, sy'n eu gwneud yn fwy agored i niwed ac yn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau gwael megis iselder, gorbryder neu gamddefnyddio sylweddau. Mae lleihau tlodi yn helpu i greu amgylcheddau mwy diogel, yn cefnogi datblygiad iach, ac yn adeiladu gwydnwch a thrwy hynny yn lleihau'r risg o brofi cam-drin plant yn rhywiol.

Mae meysydd polisi eraill, megis trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), yn cael effaith uniongyrchol ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol a chefnogi adfer. Mae'r polisïau hyn yn herio agweddau niweidiol, yn hyrwyddo perthnasoedd iach, ac yn darparu cymorth i ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin/trais rhywiol. Mae tystiolaeth yn dangos bod unigolion sydd wedi profi cam-drin rhywiol yn blant yn wynebu mwy o risg o brofi trais rhywiol mewn perthnasoedd yn nes ymlaen yn eu bywydau. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd dulliau integredig.

Mae Atodiad 1 yn amlinellu'r rhyng-gysylltiadau rhwng y strategaeth hon a strategaethau a chynlluniau gweithredu eraill Llywodraeth Cymru, gan ddangos sut y bydd gweithredu ar y cyd ar draws Llywodraeth Cymru yn cryfhau ein gallu i atal, amddiffyn, ymateb a chefnogi'r rhai yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol.

# Adran 6:
# Strwythur cyflawni

Bydd y strwythur cyflawni yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau'r gynrychiolaeth gywir ar bob grŵp ac i leihau'r risg o ddyblygu gwaith strwythurau presennol e.e. Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

Nid atal mentrau a gwelliannau lleol/rhanbarthol fydd diben y strwythur cenedlaethol – mae llawer o waith rhagorol yn digwydd yn barod yng Nghymru. Ei ddiben fydd:

- sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn cael eu dwyn ynghyd i ystyried gwybodaeth ar lefel genedlaethol a fydd yn llywio comisiynu ac yn siapio darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol
- rhoi trosolwg i Weinidogion o weithrediad ac effeithiolrwydd y strategaeth
- ymgysylltu ag ysgogwyr ar lefel genedlaethol nad ydynt efallai ar gael ar lefel leol neu ranbarthol
- sicrhau bod pob maes polisi perthnasol yn Llywodraeth Cymru yn ymateb yn gydlynol i gam-drin plant yn rhywiol
- nodi arferion da a rhoi mwy ohonynt ar waith

### Y Gangen Diogelu ac Eiriolaeth, Llywodraeth Cymru

**Y gangen hon fydd:**

- yn cadeirio'r Bwrdd Gweithredu a Throsolwg Strategol
- yn gyfrifol am gyflawni'r strategaeth a'r polisi ynghylch cam-drin plant yn rhywiol
- yn darparu swyddogaethau ysgrifenyddiaeth ar gyfer pob grŵp a sefydlir o dan y strategaeth
- yn cadeirio'r grwpiau gorchwyl a gorffen ar gyfer datblygu set ddata, ymgorffori llwybr cenedlaethol ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol a gweithredu fframwaith hyfforddi ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol
- yn cymryd rhan mewn grwpiau ffrwd waith
- yn datblygu a chynnal y strwythur cyflawni.

### Bwrdd Gweithredu a Throsolwg Strategol

**Diben y Bwrdd fydd:**

- rhoi cyfeiriad i'r grwpiau ffrydiau gwaith ac i unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen, a goruchwylio effeithiolrwydd eu gwaith
- sicrhau bod yr holl bartneriaid allweddol yn cael eu cynnwys ac yn atebol am y gwaith y maen nhw'n ei wneud sy'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion strategol
- derbyn ac ystyried adroddiadau gan grwpiau ffrydiau gwaith ac unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen

6.0

- adrodd i'r Gweinidog ddwywaith y flwyddyn ar y cynnydd a wnaed, allbynnau a chanlyniadau (dros amser), heriau a brofwyd ac unrhyw argymhellion ar gyfer sut i fynd i'r afael â'r rhain
- datblygu adroddiad teirblynyddol ar y cynnydd a wnaed tuag at yr amcanion strategol a'r weledigaeth, ei gyflwyno i'r Gweinidog a chyhoeddi'r fersiwn derfynol

**Bydd yr aelodaeth yn cynnwys:**

- Uwch-arweinwyr o awdurdodau lleol, yr heddlu, GIG Cymru gan gynnwys y Gwasanaeth Diogelu a Pherfformiad a Gwella, y gwasanaeth prawf, cyfiawnder ieuenctid
- Uwch-arweinwyr o sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau i bobl yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol
- Cadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Estyn – Arolygiaeth ar gyfer lleoliadau Addysg
- Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi

### Grwpiau ffrydiau gwaith

Bydd pedwar grŵp ffrwd waith yn cael eu sefydlu i gynrychioli'r amcanion strategol:

- Atal cam-drin plant yn rhywiol
- Amddiffyn plant ac ymateb iddynt yn effeithiol pan fo pryderon am gam-drin plant yn rhywiol
- Cefnogi plant, rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin, brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu
- Cefnogi oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr

Mae cynlluniau gwaith ar gyfer pob un o'r grwpiau hyn wedi'u cynnwys yng nghynllun cyflawni 2026-2029 ac wedi'u seilio ar y blaenoriaethau a nodwyd drwy ymgysylltu ac ymgynghori. Bydd y grwpiau yn cael eu cadeirio gan gynrychiolwyr o'r sector statudol neu'r trydydd sector a bydd swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn cael eu cynrychioli ar bob un ohonynt.



6.0

Bydd aelodaeth y grwpiau hyn yn cynnwys (yn dibynnu ar y cynlluniau gwaith priodol):

- Yr heddlu, iechyd, awdurdodau lleol, y gwasanaeth prawf, cyfiawnder ieuenctid
- Rheolwyr gweithredol o sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu cymorth i bobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol
- Rheolwyr Busnes y Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Aelodau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
- Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
- Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn
- Arolygiaethau perthnasol
- Arweinwyr polisi o Lywodraeth Cymru ar gyfer materion croestoriadol fel trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

### Grŵp Cynghorol Plant a Phobl Ifanc

Rhaid i'r gwaith o sefydlu grŵp o blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiadau o gam-drin a chamfanteisio rhywiol gael ei wneud yn sensitif ac yn foesegol. Mae'n hanfodol bod aelodau'r grŵp hwn yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i allu cymryd rhan yn llawn ac yn ddiogel, cyn, yn ystod ac ar ôl ymgysylltu.

Bydd model cyfranogiad Lundy[26] yn sail i'n dull gweithredu. Mae'n darparu fframwaith cysyniadol gyda phedwar dimensiwn dilyniannol:

1. **Lle:** Lle diogel a chynhwysol i blant fynegi eu barn
2. **Llais:** Darparu gwybodaeth a chymorth i blant fynegi eu barn
3. **Cynulleidfa:** Sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn cael eu cyfathrebu i'r bobl iawn
4. **Dylanwad:** Sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn cael ei chymryd o ddifrif ac y gweithredir arni.

Mae'n hanfodol bod y cymorth cywir ar waith a bod y grŵp yn cael yr adnoddau priodol cyn ymgysylltu ag aelodau.

[26] The Lundy Model: Article 12 in Practice - Rights Respecting Schools Award

6.0

Felly, yn dilyn lansio'r strategaeth a'r cynllun cyflawni ar gyfer 2026-2029, bydd darparwyr gwasanaethau trydydd sector i blant ac arweinwyr polisi perthnasol yn Llywodraeth Cymru a grwpiau dioddefwyr-oroeswyr yn datblygu map trywydd ar gyfer ei sefydlu. Mae'n bwysicach sefydlu'r grŵp yn gywir na rhuthro a chreu risg o achosi trawma o'r newydd i blant a phobl ifanc.

Bydd sawl ffordd i blant a phobl ifanc ymgysylltu y tu allan i'r lleoliad grŵp gan gydnabod na fydd pawb eisiau rhannu eu barn o flaen eu cyfoedion.

### Grŵp Cynghorol Oedolion sy'n Ddioddefwyr-Oroeswyr

Mae ymgysylltu ag unigolion a grwpiau o ddioddefwyr-oroeswyr wedi bod yn ganolog i ddatblygu'r strategaeth hon. Mae'n bwysig bod y gwaith o sefydlu grŵp o'r fath yn cael ei wneud mor foesegol a sensitif â'r gwaith o ddatblygu'r Grŵp Cynghorol Plant a Phobl Ifanc.

Er bod model Lundy wedi'i ddatblygu ar gyfer cyfranogiad plant, mae'r egwyddorion sy'n sail iddo yn bwysig i oedolion hefyd. Mae angen lle diogel a chynhwysol ar oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr i rannu eu barn; mae angen gwybodaeth a chymorth arnynt i rannu eu barn; mae angen i'w barn gael ei chyfleu i'r bobl iawn; ac mae angen gwrando ar eu barn a gweithredu arni.

Er mwyn sicrhau lle diogel, mae angen inni sicrhau bod aelodau'n cael eu cefnogi drwy gydol y gwaith ymgysylltu mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion.

Ar gyfer y ddau grŵp cynghorol bydd proses adborth glir yn cael ei sefydlu – "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni" – i ddangos sut y mae eu barn wedi'i rhannu, gyda phwy y cafodd ei rhannu, a pha gamau sydd wedi'u cymryd i ymateb iddynt.

Bydd dioddefwyr-oroeswyr yn cael eu talu am eu hamser fel arwydd o'r gwerth y maent yn ei ychwanegu ac i gydnabod eu bod yn arbenigwyr drwy brofiad byw.

### Grŵp ffrwd waith monitro a gwerthuso

Ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y strategaeth, bydd grŵp ffrwd waith Monitro a Gwerthuso yn cael ei sefydlu a fydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i sefydlu set ddata graidd ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol, datblygu fframwaith ar gyfer monitro allbynnau, canlyniadau ac effaith a chyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol i'r Bwrdd Gweithredu a Throsolwg Strategol.

Bydd y grŵp hwn hefyd yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu dulliau ansoddol ar gyfer mesur effaith a fydd yn ategu'r data meintiol a ddarperir gan set ddata.



6.0

Mae dulliau ansoddol yn cynnwys arolygon, grwpiau ffocws a chyfweliadau a byddant yn cofnodi profiad byw plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr. Bydd y grŵp yn mapio sut a phryd y bydd y dulliau hyn yn cael eu defnyddio drwy gydol oes y strategaeth a bydd yn cael ei lywio gan y gwaith ar y set ddata a fydd yn nodi meysydd lle nad oes digon o ddata neu lle mae angen adeiladu/newid mecanweithiau i alluogi adrodd data am wybodaeth newydd.

Mae dulliau ansoddol yn helpu i gynrychioli barn pawb sy'n ymwneud â'r strategaeth yn gywir gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gamau gweithredu, rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'i chyflawni, ac yn bwysicaf oll, y plant, y bobl ifanc a'r oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr sydd wrth wraidd y strategaeth.

Bydd y grŵp hwn yn adolygu ac yn distyllu negeseuon allweddol o amryw o ffynonellau:

- Set ddata graidd a fydd yn ehangu i gynnwys data gan ddarparwyr gwasanaethau i blant, aelodau o'r teulu a dioddefwyr-oroeswyr.
- Adolygiad Diogelu Unedig Sengl lle mae cam-drin plant yn rhywiol wedi'i nodi fel ffactor
- Adolygiadau/ ymchwiliadau eraill sy'n berthnasol e.e. ymchwiliad cenedlaethol i gamfanteisio'n rhywiol ar blant ar sail grŵp
- Arolygon cenedlaethol a rhyngwladol e.e. Arolwg yr ONS
- Negeseuon ar gyfer ymarfer sy'n codi'n lleol ac yn rhanbarthol
- Ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol

Bydd y grŵp hwn yn sicrhau bod yr wybodaeth a gaiff y Bwrdd Gweithredu a Throsolwg Strategol yn gyfredol o ran arferion sy'n datblygu a themâu/ materion sy'n dod i'r amlwg, a'i bod yn llywio'r gwaith o ddiweddaru'r strategaeth a'r cynlluniau cyflawni.

### Grwpiau gorchwyl a gorffen

Bydd tri grŵp gorchwyl a gorffen yn cael eu sefydlu yn y flwyddyn gyntaf i wneud y canlynol:

- datblygu set ddata graidd;
- gweithredu fframwaith hyfforddi ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol; a
- gweithredu llwybr cenedlaethol ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol

## 6.0

Yn ystod gwaith ymgysylltu ac ymgynghori, nodwyd bod y tri cham uchod yn hanfodol i adeiladu sylfaen gadarn ar gyfer gwaith parhaus y strategaeth. Bydd pob un o'r grwpiau yn cael eu cadeirio gan y tîm Diogelu ac Eiriolaeth i gadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y sylfeini pwysig hyn yn eu lle cyn gynted â phosibl. Bydd y tri grŵp gorchwyl a gorffen yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Gweithredu a Throsolwg Strategol. Mae sefydlu'r grwpiau hyn yn flaenoriaeth allweddol ar ôl cyhoeddi.

Gellir sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen eraill gyda chylch gorchwyl clir i ymgymryd â darnau penodol o waith. Bydd yr angen am y rhain yn cael ei lywio gan wahanol rannau o'r strwythur a bydd yn ystyried gwaith arall sy'n digwydd ar draws Cymru.



> "Er mwyn sicrhau lle diogel, mae angen inni sicrhau bod aelodau'n cael eu cefnogi drwy gydol y gwaith ymgysylltu mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion."

# Adran 7:
# Monitro a Gwerthuso

Mae'n hanfodol cael systemau cadarn ar gyfer monitro a gwerthuso i sicrhau bod y strategaeth yn parhau i ymateb i dystiolaeth a materion sy'n dod i'r amlwg. Ategir y strategaeth gan gynlluniau cyflawni tair blynedd sy'n cynnal momentwm wrth roi camau gweithredu ar waith, a fframwaith sy'n galluogi craffu mewnol ac allanol. Mae'r adran hon yn amlinellu sut y bydd y mecanweithiau hyn yn gweithio i helpu i sicrhau atebolrwydd a gwelliant parhaus.

## 7.1 Mesur allbynnau, canlyniadau ac effaith

Er mwyn asesu effaith y strategaeth, byddwn yn ystyried cynnydd ar bum lefel:

- Mewnbynnau – Yr adnoddau y mae eu hangen i gyflawni'r strategaeth, megis cyllid ac arbenigedd arbenigol.
- Camau gweithredu – Y gweithgareddau a'r camau a gymerwyd i weithredu'r strategaeth.
- Allbynnau – Cynhyrchion neu gyflawniadau uniongyrchol o'r camau gweithredu hyn, er enghraifft, deunyddiau codi ymwybyddiaeth.
- Canlyniadau – Newidiadau lefel uwch a fesurir drwy ddangosyddion sy'n dangos cynnydd tuag at nodau strategol, megis cyfraddau cofrestru amddiffyn plant ar gyfer cam-drin rhywiol.
- Effaith Hirdymor – Effaith gyffredinol y strategaeth dros amser, sy'n adlewyrchu dylanwad cyfunol yr holl gamau gweithredu yn hytrach nag unrhyw fesur unigol.

Bydd pob un o'r rhain yn helpu i ddangos y cynnydd a wnaed ac yn darparu tystiolaeth i ddangos a yw'r strategaeth yn effeithio'n gadarnhaol ar fywydau beunyddiol y bobl yng Nghymru yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol.

Yn y tymor byr i ganolig, bydd y trefniadau monitro a gwerthuso yn canolbwyntio ar ddarparu tystiolaeth o fewnbwn, allbynnau a chanlyniadau drwy fframwaith mesur a gwerthuso. Mae hyn yn adlewyrchu'r amser sydd ei angen i newidiadau gael eu gwneud, i'r newidiadau ymwreiddio, ac iddynt gael effaith ar unigolion neu grwpiau. Bydd y dulliau

## 7.1

hyn yn cael eu datblygu ymhellach i sicrhau y gallwn fesur effaith ar draws degawd y strategaeth.

Un o flaenoriaethau'r strategaeth yw datblygu set ddata graidd ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol. Mae hyn yn gysylltiedig ag argymhelliad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA). Nid yw'r data sydd ar gael ar hyn o bryd yn rhoi darlun cyfannol o'r hyn sy'n digwydd i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae nifer o faterion i'w hystyried:

- Cesglir ac adroddir ar ddata ar gam-drin plant yn rhywiol ar draws meysydd sydd wedi'u cadw'n ôl, megis yr heddlu a llysoedd troseddol, a chan feysydd datganoledig megis gwasanaethau cymdeithasol.
- Mae gan bob sefydliad systemau casglu data gwahanol ac nid yw'r llwybrau adrodd a'r amserlenni ar gyfer sicrhau bod y data hyn ar gael yn cyd-fynd â'i gilydd bob amser.
- Drwy'r broses o ddatblygu set ddata graidd, rydym yn debygol o ganfod mwy o fylchau mewn gwybodaeth.
- Nid yw'r data sydd ar gael o ansawdd digon cadarn bob amser.
- Nid oes digon o ddadansoddi amlasiantaeth ar y cyd yn digwydd ar y data sydd ar gael ac nid yw'r data yn cael eu rhannu rhwng partneriaid yn gyson.

O'r herwydd, bydd angen i'r gwaith o gasglu data ac adrodd arnynt gael ei ddatblygu ymhellach drwy gydol oes y strategaeth hon. Byddai gwell data, a gwelliannau o ran casglu data a dadansoddi amlasiantaeth, yn ei gwneud yn bosibl nodi themâu, patrymau a gwybodaeth yn gyflym ac yn gywir.

Byddai system gydweithredol ar gyfer rhannu a dadansoddi'r data hyn yn sicrhau bod gan yr holl asiantaethau a sefydliadau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc, aelodau o'r teulu ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr yn cael y darlun llawnaf posibl, ac mae hyn yn helpu i wneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig.



## 7.2 Llywodraethiant

Bydd pob un o'r grwpiau gorchwyl a gorffen a phob un o'r grwpiau ffrydiau gwaith o fewn y strwythur cyflawni yn darparu adroddiadau uchafbwyntiau ddwywaith y flwyddyn i'r **Bwrdd Gweithredu a Throsolwg Strategol.** Bydd yr adroddiadau uchafbwyntiau hyn:

- Yn helpu i ddatblygu **crynodeb blynyddol o gynnydd,** a allai arwain at ddiweddariadau neu ddiwygiadau i'r cynllun cyflawni.
- **Bydd crynodebau blynyddol o'r cynnydd** yn cael eu darparu i Weinidogion ac yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni ar y we.
- Cyfrannu at **adolygiad cynhwysfawr o gynnydd bob tair blynedd,** gan asesu:
    - Y cynnydd a wnaed
    - Yr heriau a'r rhwystrau a wynebwyd
    - Argymhellion ar gyfer newidiadau i'r cynllun cyflawni

Bydd Cynlluniau Cyflawni dilynol yn cael eu cyhoeddi ar gyfer y cyfnodau **2029–2032** a **2032–2035.** Yn 2035-2036 bydd y strategaeth yn cael ei diwygio yn barod ar gyfer cyhoeddi fersiwn newydd ohoni.

Camau gweithredu ychwanegol i hybu tryloywder ac atebolrwydd:

- **Datblygu gwefan bwrpasol a fydd yn:**
    - Creu man canolog ar gyfer adnoddau yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol i bob cynulleidfa
    - Darparu diweddariadau amser real ar yr hyn a gyflawnwyd o dan y strategaeth
    - Galluogi rhanddeiliaid a'r cyhoedd i olrhain effeithiolrwydd

# Atodiad 1:

## Y rhyngberthynas rhwng y strategaeth hon a strategaethau a chynlluniau gweithredu eraill y Llywodraeth



Atodiad 1

### Caethwasiaeth fodern

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fath o gaethwasiaeth fodern, yn ogystal ag yn fath o gam-drin plant yn rhywiol. Er bod caethwasiaeth fodern yn faes sydd heb ei ddatganoli, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, y Llywodraethau Datganoledig eraill a phartneriaid amlasiantaeth i ymateb i'r drosedd hon. Mae hyn yn cynnwys trefnu Fforwm Gwrthgaethwasiaeth Cymru a'i bedwar gweithgor thematig a chyflawni ei raglen waith, yn ogystal â gweithio gydag asiantaethau partner i gynnal cynadleddau blynyddol.

Ym mis Hydref 2025, lansiodd Llywodraeth Cymru ddysgu ar-lein am ddim ar gaethwasiaeth fodern. Mae hwn yn cynnwys deunydd sy'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant

### Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Mae ein sylfaen dystiolaeth yn dangos cysylltiad clir rhwng trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, trais rhywiol a cham-drin plant yn rhywiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir ein huchelgais i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, fel y gwelir drwy ein deddfwriaeth arloesol **Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf"). Diben y Ddeddf** yw gwella: -

**(a)** trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol

**(b)** trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol

**(c)** y cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae adran 3 o'r Ddeddf yn nodi'r gofyniad cyfreithiol i Lywodraeth Cymru baratoi, cyhoeddi ac adolygu strategaeth genedlaethol. Rhaid i'r strategaeth genedlaethol bennu ei hamcanion, pennu o fewn pa gyfnod o amser y mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl cyflawni'r amcanion, a dynodi'r camau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion a bennwyd.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ddatblygu, ar y cyd, strategaethau lleol sy'n nodi eu hamcanion, yr amserlenni a'r camau gweithredu i ddiwallu anghenion pobl ar lefel leol. Mae'r trefniadau comisiynu gyda chyrff eraill megis

Atodiad 1

Sefydliadau Anllywodraethol sy'n bartneriaid cyflawni, a gwasanaethau arbenigol, hefyd yn atebol am eu cyfraniad. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hail Strategaeth Genedlaethol VAWDASV ar gyfer 2022–2026 ym mis Mai 2022. Roedd hon yn nodi'r weledigaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

Mae amcanion a dyheadau'r Ddeddf a'r Strategaeth Genedlaethol yn cyfrannu at amcanion a dyheadau'r strategaeth hon. Mae'r tîm Diogelu ac Eiriolaeth sy'n ysgrifennu'r strategaeth hon yn cael ei gynrychioli ar grŵp ffrydiau gwaith Plant a Phobl Ifanc a grŵp ffrydiau gwaith Pobl Hŷn y Glasbrint VAWDASV.

Bydd angen adolygu'r strategaeth VAWDASV o fewn chwe mis i etholiadau'r Senedd. Byddwn yn sicrhau bod cydweddiad rhwng y strategaeth hon a'r gwaith o ddatblygu strategaeth VAWDASV newydd.

### Gwydnwch a Diogelwch Digidol

Nod **Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein – Hwb (llyw.cymru)** yw rhoi gwybodaeth, sgiliau a strategaethau rhagorol i'n plant a'n pobl ifanc yn y meysydd hyn a'u galluogi i wybod pryd i chwilio am help chymorth a ble i ddod o hyd iddynt. Mae'n esbonio y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar dri maes allweddol: diogelwch ar-lein, gwydnwch seiber a diogelu data.

Mae'r tîm yn codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y cynnydd cyflym mewn deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol (CSAM) a gynhyrchir gan AI. Gwneir hyn drwy'r canllawiau newydd ar AI Cynhyrchiol – Cadw dysgwyr yn ddiogel: canllawiau diogelu ar-lein ar gyfer ysgolion. Cafodd canllawiau Llywodraeth Cymru ac UKCIS **'Rhannu delweddau noeth a hanner noeth: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc'** eu diweddaru yn 2024 i adlewyrchu cynnydd mewn achosion o flacmel rhywiol a delweddau a gynhyrchir gan AI sy'n targedu plant o dan 18 oed. Mae datblygu dysgu proffesiynol a rhannu adnoddau i gefnogi ymarferwyr addysg gyda materion diogelu digidol yn flaenoriaeth barhaus.

Mae'r tîm hefyd wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau diogelwch ar-lein ar gyfer plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Mae'r rhain yn ddwyieithog ac maent ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan **Hwb Cadw'n ddiogel ar-lein – Hwb**. Un o'r prif heriau sy'n wynebu oedolion sy'n cefnogi plant ac yn eu cadw'n ddiogel yw eu dealltwriaeth o dechnoleg, sut y gellir ei defnyddio i gam-drin plant yn rhywiol a pha mor gyfredol yw eu dealltwriaeth.



Atodiad 1

Mae'r tîm wedi datblygu cyfres o ddeunyddiau addysgu i'w cyflwyno mewn ysgolion ac maent yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod ganddynt fecanweithiau diogelwch ar-lein cadarn ar waith.

Mae'r tîm mewn cysylltiad â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r tîm hwn i gyflwyno elfennau o'r strategaeth hon.

Mae Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 yn mynd i'r afael â'r heriau a achosir gan dechnolegau digidol yng nghyd-destun troseddau rhywiol. Mae'n ei gwneud yn drosedd i 'seiberfflachio', anfon delweddau rhywiol digymell yn electronig, a thrwy hynny ehangu cwmpas y troseddau a all arwain at gofrestru a monitro. Ceir sawl darn arall o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chymryd, gwneud, dosbarthu a meddu ar ddelweddau anweddus o blant / ffug-ffotograffau, delweddau pornograffig eithafol a 'phornograffi dial', gan gynnwys Deddf Diogelu Plant 1978; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988; Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008; Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015; Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.

### Addysg

Mae ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yn gwneud cyfraniad hanfodol at adeiladu gwydnwch mewn plant a phobl ifanc. Mae hyn yn eu gwneud yn llai agored i niwed, gan leihau'r risg o gam-drin rhywiol. Mae sawl cynllun a strategaeth sy'n nodi'r disgwyliadau sydd gan Lywodraeth Cymru y bydd ysgolion a lleoliadau eraill yn cefnogi teuluoedd ac yn hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.

Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd Llywodraeth **Cymru Ganllawiau Ysgolion Bro** sy'n cynghori ysgolion sut y gallant ymgysylltu â theuluoedd, cymunedau a gwahanol asiantaethau i gefnogi anghenion eu dysgwyr a'u teuluoedd a bod o fudd i'r gymuned ehangach. Mae hyn yn galluogi plant a theuluoedd i gael mynediad at gymorth i atal problemau rhag gwaethygu. Erbyn hyn, mae gan y rhan fwyaf o ysgolion Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd neu debyg ac mae'r rôl hon yn darparu cymorth sylweddol ac yn cynorthwyo teuluoedd i gael mynediad at adnoddau i fynd i'r afael â thlodi, darparu cymorth rhianta a chyfeirio at wasanaethau cymunedol eraill megis y Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

Mae ein sylfaen dystiolaeth yn dangos y gall dulliau iechyd cyhoeddus ehangach o ymdrin â misogynedd gael effaith sylweddol ar ymddygiadau sy'n niweidiol yn rhywiol neu a allai ddatblygu i fod felly. **Mae aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn lleoliadau addysg: cynllun gweithredu [HTML] | LLYW. CYMRU,** a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024,

Atodiad 1

yn amlinellu'r camau y bydd Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid, yn eu cymryd i atal ac ymateb i broblem aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ac **ymddygiad rhywiol niweidiol (www.diogelu.cymru)** mewn lleoliadau addysg.

Mae tystiolaeth yn dangos mai merched a menywod ifanc yw prif darged aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, a bod dysgwyr LHDTC+ a dysgwyr ag ADY yn wynebu risg uchel hefyd. Nod y cynllun gweithredu yw adlewyrchu natur aflonyddu rhywiol fel mater croestoriadol ac, wrth wneud hynny, ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr megis dysgwyr Du ac ethnig leiafrifol, LHDTC+, niwroamrywiol ac anabl. Mae llais pobl ifanc wrth wraidd cynllunio'r ymateb i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad gorfodol yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'n gwneud cyfraniad pwysig at gefnogi dysgwyr i adnabod perthnasoedd iach a diogel a deall a datblygu parch at wahaniaethau rhwng pobl. Mae'n galluogi dysgwyr i reoli risgiau, mynegi syniadau ac emosiynau, datblygu a chynnal perthnasoedd iach a chwarae gwahanol rolau ac ysgwyddo gwahanol gyfrifoldebau. Gall y dysgu a'r profiad yn y maes hwn gefnogi dysgwyr i ddod yn unigolion iach a hyderus.

Mae un rhan o'r Cod ACRh yn canolbwyntio ar 'Grymuso, diogelwch a pharch' gan gynnwys:

- hawliau dysgwyr i ddiogelwch ac amddiffyniad a rhyddid rhag niwed a gwahaniaethu
- sut a ble i gael gwybodaeth, help a chymorth
- sut i gefnogi ac eirioli dros hawliau, triniaeth deg a pharch at bawb.

Mae **Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein – Hwb** yn egluro'r gwaith mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i wella diogelwch ar-lein i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Mae ein sylfaen dystiolaeth yn dangos mai cam-drin rhywiol ar-lein yw'r math o gam-drin plant yn rhywiol sy'n tyfu fwyaf.

Mae'r tîm Cadernid Digidol mewn Addysg wedi datblygu cyfres sylweddol o ddeunyddiau cymorth i blant, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol (nid dim ond gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau addysg).



Atodiad 1

Maent yn codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y cynnydd cyflym mewn cam-drin plant yn rhywiol a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial (AI), drwy AI cynhyrchiol newydd. Yn ddiweddar, maent wedi cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer ysgolion **Cadw'n ddiogel ar-lein – Hwb** sy'n adlewyrchu cynnydd mewn achosion o flacmel rhywiol a delweddau a gynhyrchir gan AI sy'n targedu plant o dan 18 oed. Mae datblygu dysgu proffesiynol a rhannu adnoddau i gynorthwyo ymarferwyr â materion diogelu digidol yn flaenoriaeth barhaus.

Mae plant oedran ysgol yn treulio cyfran sylweddol o'u bywydau mewn lleoliadau addysg, felly mae gan y meysydd polisi addysg o fewn Llywodraeth Cymru, ynghyd ag ysgolion a lleoliadau addysg eraill gyfraniad sylweddol i'w wneud o ran diogelu plant rhag pob math o gamdriniaeth.

Mae gan awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol ddyletswydd gyfreithiol i roi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddynt y gallai plentyn fod yn profi camdriniaeth, esgeulustod neu niwed, neu ei fod yn wynebu risg o hynny.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru **Cadw dysgwyr yn ddiogel | LLYW.CYMRU** wedi'u hanelu at bawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad addysg neu asiantaeth gysylltiedig a fyddai'n elwa ar ddeall y broses ar gyfer diogelu mewn ysgolion, a'r system ehangach.

Mae'r canllawiau'n nodi'r mesurau diogelu cadarn y mae'n rhaid i ysgolion a lleoliadau addysgol eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc eu rhoi ar waith. Er enghraifft, bod ag Arweinydd Diogelu Dynodedig, arferion recriwtio diogel a hyfforddiant diogelu. Mae'n cynnwys arweiniad ar sut i ymateb i bryderon am weithiwr proffesiynol hefyd.

Mae ysgolion a lleoliadau addysg yn darparu cymorth i blant a phobl ifanc ynghylch eu hiechyd meddwl a'u llesiant meddyliol hefyd, gan liniaru profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chefnogi eu hadferiad o drawma.

Mae'r **Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol | LLYW.CYMRU** a gyhoeddwyd yn 2021 yn nodi sut y mae'n ofynnol i ysgolion ac awdurdodau lleol roi sylw i'r Fframwaith wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu, strategaethau a pholisïau eraill sy'n effeithio ar lesiant dysgwyr, staff ac eraill sy'n gweithio yn amgylchedd yr ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol yn y flwyddyn gyfredol i helpu i roi'r Fframwaith ar waith, Mae hwn yn cynnwys cyllid i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd angen ymyriadau mwy arbenigol er mwyn sicrhau eu bod yn cael

Atodiad 1

ymateb priodol mewn modd amserol (mewngymorth y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc); a chyllid i helpu i wella ac ehangu'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion a chymunedau, sy'n gweld tua 12,500 o blant a phobl ifanc bob blwyddyn.

**Gofal Plant a Chwarae**

Mae plant yn elwa'n fawr ar gymryd rhan mewn gweithgareddau gofal plant a chwarae o ansawdd uchel. Gall hyn hyrwyddo cyfle cyfartal, datblygiad gwybyddol plentyn, ei sgiliau cymdeithasol a'i lesiant, adeiladu gwydnwch a lleihau/lliniaru profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Mae'r gweithlu gofal plant a chwarae yn bartneriaid hollbwysig wrth gadw plant yn ddiogel rhag camdriniaeth. Maent yn treulio cryn dipyn o amser gyda phlant a phobl ifanc, felly maent mewn sefyllfa dda i adeiladu perthnasoedd ymddiriedol a mannau diogel i blant ddatgelu niwed.

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi'u hadolygu a'r wybodaeth ddiogelu wedi'i chryfhau. Rydym wedi bod yn cyfrannu at yr adolygiad o'r Gorchymyn Eithriadau – amgylchiadau pan fo darparwyr wedi'u heithrio rhag cofrestru fel gwarchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd. Mae hyn wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar.

Mae'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau diogelu digonol ar waith mewn lleoliadau gwaith chwarae. Rydym wedi gweithio gyda'r sector chwarae i adolygu'r Cod Ymarfer Diogelu, sef canllawiau anstatudol ar gyfer unigolion, grwpiau neu sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau ledled Cymru nad ydynt yn dod o fewn cylch gwaith arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru ac sydd y tu hwnt i'r ddyletswydd sefydliadol i adrodd a roddir ar awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol

**Plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal**

Gall plant a phobl ifanc sy'n byw mewn trefniadau gofal amgen fod yn rhai o'r unigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Gall eu hamgylchiadau eu gwneud yn dargedau i droseddwyr rhywiol, sy'n aml yn manteisio ar anghenion emosiynol y plant hyn – anghenion megis perthyn, cysur a gofal. Gall y bregusrwydd hwn gynyddu'r risg o gam-drin a chamfanteisio rhywiol.

At hynny, yr union reswm pam y mae rhai plant yn cael eu rhoi yn y system ofal yw eu bod eisoes wedi profi niwed rhywiol. Mae'r trawma blaenorol hwn yn gwaethygu eu bregusrwydd a gall gael effeithiau parhaol ar eu llesiant a'u datblygiad.



Atodiad 1

Mae ymchwiliadau cenedlaethol uchel eu proffil megis yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA), wedi tynnu sylw at y risgiau unigryw sy'n wynebu plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r plant hyn yn llawer mwy tebygol o brofi cam-drin rhywiol na'u cyfoedion nad ydynt mewn gofal. Mae eu profiadau yn aml yn cynnwys camdriniaeth, esgeulustod, a phrofiadau niweidiol eraill yn ystod plentyndod, sy'n eu gwneud hyd yn oed yn fwy agored i niwed.

Yn 2019, cyhoeddodd y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol adroddiad o'r enw Key Messages from Research on Looked-After Children and Child Sexual Abuse. Roedd yr adroddiad yn cadarnhau llawer o'r pryderon hyn ac yn pwysleisio pwysigrwydd addysg wedi'i theilwra:

"Sex and relationship education should be carefully delivered to looked-after children, emphasising mutuality and consent, and openly discussing grooming (including online, exploitation, and control and coercion) in relationships as well as covering gender dynamics and LGBTI issues."

Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen hanfodol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb allu ymateb i anghenion penodol plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Plant sydd ar yr Ymylon, adroddiad sy'n canolbwyntio ar blant sy'n mynd ar goll a/neu sy'n destun camfanteisio troseddol. Mae hefyd yn taflu goleuni ar brofiadau pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal:

"Er y gall plant mewn gofal gael eu gorgynrychioli mewn ystadegau am blant coll, mae'n amlwg eu bod yn anghymesur o debygol o fynd ar goll o gymharu â phlant nad ydynt mewn gofal. Mae mynd ar goll yn golygu eu bod yn wynebu risg o niwed pellach, gan gynnwys camfanteisio a cham-drin. Ac oherwydd y trawma y mae llawer o blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi'i brofi, ac oherwydd efallai nad oes ganddynt strwythurau cymorth cyson a chariadus o'u cwmpas, maent yn arbennig o agored i ymddygiad camfanteisiol."

Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag ymchwil y Ganolfan Arbenigedd, sy'n tanlinellu'r risgiau parhaus sy'n wynebu plant mewn gofal.

Ar ben hynny, mae'n bosibl y bydd unigolion â phrofiad o fod mewn gofal sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol yn wynebu heriau ychwanegol wrth fagu eu plant eu hunain. Mae cymorth wedi'i dargedu yn hanfodol i'w helpu i lywio'u ffordd drwy'r anawsterau hyn a thorri cylchoedd trawma.

Atodiad 1

Camsyniad cyffredin, ond peryglus, yw bod plant mewn gofal yn ddiogel yn awtomatig rhag camdriniaeth, esgeulustod a niwed. Er bod llawer o weithwyr proffesiynol a gofalwyr yn darparu gofal rhagorol, mae'n hanfodol bod pawb sy'n gweithio gyda phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn parhau i fod yn wyliadwrus. Nid yw bod mewn gofal yn gwarantu diogelwch, ac mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol fod yn effro i arwyddion cam-drin a chamfanteisio rhywiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio **Canllawiau Ymarfer Cenedlaethol** ar gyfer Cymorth Therapiwtig i Blant a Phobl Ifanc â Phrofiad o fod mewn Gofal. Nod y rhain yw helpu plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i gael mynediad teg a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ystyriol o drawma, i gefnogi eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

### Hyb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Straen Trawmatig Cymru

Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) yn brofiadau trawmatig sy'n digwydd yn ystod plentyndod ond sy'n gallu parhau i effeithio ar lesiant rhywun am weddill ei oes. Maent yn cynnwys profiadau sy'n niweidio plentyn yn uniongyrchol, e.e. camdriniaeth neu esgeulustod rhywiol neu gorfforol, neu sy'n effeithio ar yr amgylchedd y maent yn byw ynddo, e.e. tyfu i fyny mewn cartref lle mae trais domestig, problemau salwch meddwl rhieni, neu ddefnyddio sylweddau.

Yn 2015 cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr astudiaeth gyntaf o ACEs yng Nghymru **Profiadau Niweidiol Mewn Plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ymysg oedolion Cymru – Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant.** Canfu'r astudiaeth hon a rhai dilynol fod tua hanner yr holl oedolion yng Nghymru wedi profi o leiaf un ACE, a bod 14% wedi profi pedwar neu fwy. Canfu hefyd fod 10% o oedolion yng Nghymru yn dweud eu bod wedi profi cam-drin rhywiol pan oeddent yn blant, sy'n gyson ag astudiaethau eraill ar draws Ewrop.

Po fwyaf o ACEs a brofir, y mwyaf yw'r tebygolrwydd o gael canlyniadau gwaeth ar draws cwrs bywyd. Mae'r rhain yn cynnwys iechyd meddwl, llesiant meddyliol ac iechyd corfforol gwaeth.

Canfu astudiaeth ACEs Cymru fod pobl a oedd wedi profi pedwar neu fwy o ACEs bum gwaith yn fwy tebygol o brofi llesiant meddyliol isel a chwe gwaith yn fwy tebygol o gael triniaeth ar gyfer salwch meddwl yn ystod eu bywydau – **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'u Cysylltiad â Lles Meddwl ym Mhoblogaeth Oedolion Cymru – Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**



Atodiad 1

Mae ACEs yn gysylltiedig ag ymddwyn mewn ffordd sy'n niweidio iechyd yn ystod y glasoed, er enghraifft smygu a chamddefnyddio sylweddau, a rhyw cynnar a beichiogrwydd heb ei gynllunio yn ystod yr arddegau. Gall y rhain arwain at ddatblygu cyflyrau iechyd corfforol cronig megis canser, clefyd y galon a diabetes yn gynnar, neu at fwy o debygolrwydd o'u datblygu'n gynnar.

### Iechyd Meddwl

Gall cam-drin plant yn rhywiol olygu canlyniadau negyddol hirdymor i ddioddefwyr-oroeswyr, gan gynnwys effaith sylweddol ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol. Gall ymgais i gyflawni hunanladdiad a hunan-niweidio fod yn rhai o'r ffyrdd mae trawma a thrallod yr unigolyn yn cael eu harddangos. Weithiau, bydd angen i ddioddefwyr-oroeswyr barhau i gael cymorth therapiwtig sy'n ystyriol o drawma gydol eu hoes.

Cafodd dwy strategaeth ddeng mlynedd Llywodraeth Cymru, y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, eu cyhoeddi yn 2025 yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu helaeth. Mae'r strategaethau yn gweithio gyda'i gilydd i amlinellu'r ddarpariaeth ar gyfer cymorth yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol yn cynnwys sawl datganiad gweledigaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni'r strategaeth hon, gan gynnwys:

- Datganiad gweledigaeth 3: Ceir system gysylltiedig lle mae pawb yn cael y lefel briodol o gymorth lle bynnag y maent yn gofyn am help
- Datganiad gweledigaeth 4: Ceir gwasanaethau iechyd meddwl di-dor sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cael eu harwain gan angen ac yn cyfeirio at y cymorth cywir y tro cyntaf, yn ddi-oed.

Mae gan y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio sawl amcan sydd â'r nod o wella cymorth i bawb, gan gynnwys plant ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin rhywiol – pobl y mae tystiolaeth yn dangos y gallent wynebu mwy o risg o hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae'r amcanion hyn yn cynnwys:

- Amcan 2: Atal – sy'n ein hymrwymo i archwilio atal hirdymor drwy fynd i'r afael â ffactorau risg a mynediad at ddulliau o hunanladdiad a hunan-niweidio
- Amcan 4: Cefnogi – byddwn yn gwella gwasanaethau i bobl sy'n meddwl am hunan-niweidio a hunanladdiad

Atodiad 1

- Amcan 5: Galluogi – archwilio ffyrdd o sicrhau bod gwasanaethau ehangach sy'n cefnogi pobl sy'n wynebu risg uwch ledled Cymru yn nodi pobl sydd mewn angen ac yn darparu cymorth

Mae'r ddwy strategaeth yn ymwneud â sefydlu dull gweithredu 'dim drws anghywir' ar gyfer cymorth iechyd meddwl a llesiant meddyliol yng Nghymru, yn unol â **fframwaith NYTH** ar gyfer creu dull system gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant meddyliol i fabanod, plant a phobl ifanc. Mae fframwaith NYTH yn cymhwyso'r egwyddorion allweddol bod oedolion yr ymddiriedir ynddynt yn cael mynediad hawdd at arbenigedd i gefnogi anghenion iechyd meddwl a llesiant meddyliol babanod, plant a phobl ifanc ar yr adeg iawn, yn y ffordd iawn. Mae'r fframwaith yn cael ei weithredu drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n dod â phartneriaid at ei gilydd i greu system gymorth gydgysylltiedig.

### Tlodi Plant

Mae ein sylfaen dystiolaeth yn dangos bod cysylltiadau cryf rhwng byw mewn tlodi a risg uwch o gamdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed megis camfanteisio'n rhywiol a chamfanteisio troseddol.

Mae UNICEF yn datgan mai un o'r rhesymau pam y gall tlodi yn ystod plentyndod gael effeithiau gydol oes yw'r straen y mae'n ei roi ar ymennydd a chyrff bregus sy'n datblygu. Maent yn ychwanegu bod plant hefyd yn gallu amsugno straen eu rhieni a bod astudiaethau wedi dangos bod babanod ifanc iawn yn profi straen ffisiolegol gan fod ymateb eu mamau i straen yn peri ymateb ynddynt hwythau.

Mae byw gyda straen cronig yn gallu cynyddu'r risgiau o oedi datblygiadol, problemau iechyd meddwl a datblygiad gwybyddol gwaelach. Gall plant sy'n byw mewn tlodi wynebu mwy o risg o gael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod megis trais rhyng-deuluol – profiadau sydd ynddynt eu hunain yn cynyddu'r siawns o ddatblygu iselder, gorbryder, neu ddibyniaeth ar gyffuriau. Gwyddom, po fwyaf o brofiadau plentyndod niweidiol a gaiff plant, yr uchaf yw'r risg iddynt gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio mewn rhyw ffordd arall.

Ym mis Awst 2024, rhagwelodd y Resolution Foundation, melin drafod safonau byw, pe na bai rhagolygon neu bolisïau economaidd yn newid o etholiad 2024 ymlaen, y byddai 1.5 miliwn yn rhagor o bobl, gan gynnwys 400,000 o blant, mewn

[28] How does poverty affect children differently? | UNICEF Europe and Central Asia [29] Poverty in the UK: statistics - House of Commons Library [30] UK Poverty 2025: The essential guide to understanding poverty in the UK | Joseph Rowntree Foundation



Atodiad 1

tlodi cymharol ar ôl costau tai yn 2029/30, o gyfradd o 22% i bob unigolyn yn 2024/25 i 23% yn 2029/30[27].

Mae adroddiad diweddaraf Sefydliad Joseph Rowntree[28] yn tynnu sylw at y materion allweddol canlynol:

- Mae tlodi yng Nghymru yn gwaethygu
- Mae effaith tlodi yn anwastad ymhlith gwahanol grwpiau o bobl
- Mae canlyniadau parhaol i iechyd ac addysg – gan gyfyngu ar y rhagolygon hirdymor i Gymru
- Plant sydd wedi bod â'r cyfraddau tlodi uchaf yn gyson ac, erbyn hyn, pensiynwyr ynghyd ag oedolion o oedran gweithio heb blant sydd â'r cyfraddau isaf.

Nod Strategaeth Tlodi Plant 2024 Llywodraeth Cymru yw sicrhau integreiddio cryfach ar draws ein polisïau, ein rhaglenni a'n cynlluniau gweithredu cenedlaethol a chefnogi cydweithio ar lefelau rhanbarthol a lleol. Bydd y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal o dan y strategaeth hon yn codi plant a theuluoedd allan o dlodi, gan leihau'r bregusrwydd sy'n gysylltiedig â thlodi.

Mae Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn ddull cynhwysfawr o fynd i'r afael â thlodi plant, sy'n fater cymhleth. Drwy ganolbwyntio ar integreiddio, cydweithredu, a llesiant teuluoedd, nod Llywodraeth Cymru yw creu dyfodol tecach i bob plentyn yng Nghymru. Bydd yn hanfodol bod ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid a monitro cynnydd yn digwydd i sicrhau effeithiolrwydd ac atebolrwydd y strategaeth.

### Cyfiawnder Ieuenctid

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am Gyfiawnder Ieuenctid. Mae'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid yn defnyddio dull 'y plentyn yn gyntaf, y troseddwr yn ail'. Mae atal plant rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, lleihau eu cyswllt â hi a chynyddu cyfleoedd i ddargyfeirio yn hanfodol i'w cefnogi i fyw bywydau di-drosedd.

Gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) gael effaith sylweddol ar lesiant meddyliol gydol oes, gan arwain at ganlyniadau negyddol megis cymryd rhan mewn troseddu. Mae'r rhai sydd â phedwar ACE neu fwy 15 gwaith yn fwy tebygol o gyflawni trais ac 20 gwaith yn fwy tebygol o gael eu carcharu. Felly, mae polisi'n canolbwyntio ar atal a lleihau effaith ACEs, atal problemau pontio'r cenedlaethau a datblygu gwydnwch i wella cyfleoedd bywyd.

Atodiad 1

Bydd y maes polisi hwn yn arbennig o bwysig o ran y camau y bydd y strategaeth hon yn eu cymryd i ddatblygu dull teulu cyfan o ymdrin â niwed rhywiol gan frodyr a chwiorydd a dull teulu cyfan, plentyn yn gyntaf o ymdrin ag ymddygiad rhywiol niweidiol.

### Diogelwch Cymunedol

Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, a sefydlwyd gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu, awdurdodau lleol, a'r gwasanaethau tân, iechyd a phrawf (a elwir yn awdurdodau cyfrifol). Mae hanner y partneriaid gofynnol wedi'u datganoli yng Nghymru, ac mae hynny wedi'i adlewyrchu mewn diwygiadau i'r Ddeddf, gan roi pwerau i Weinidogion Cymru bennu gofynion penodol naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Mae'r heddlu a llywodraeth leol yn gyd-arweinwyr ar gyfer diogelwch cymunedol, ac mae gan staff dynodedig mewn awdurdodau lleol drosolwg weinyddol ar y Partneriaethau.

Mae pob awdurdod cyfrifol yn cyfrannu ei wybodaeth leol, ei arbenigedd proffesiynol a'i adnoddau ei hun i sicrhau bod y materion sy'n peri'r pryder mwyaf i bobl leol yn cael eu blaenoriaethu a'u datrys.

Ymgorfforodd Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 y cysyniad o bartneriaeth statudol sy'n gweithio i leihau troseddu ac anhrefn yn y gymuned leol. Mae rheoliadau a deddfau dilynol y Swyddfa Gartref, gan gynnwys Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, wedi ehangu'r gofynion i gyflawni canlyniadau sy'n ymwneud ag atal a lleihau troseddu ac aildroseddu, ofn troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig, a niwed a achosir gan gamddefnyddio sylweddau.

Mae cyfrifoldebau statudol y Partneriaethau yn cynnwys:

- Darparu fframwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth i helpu i ddatrys problemau lleol
- Asesiadau strategol o'r anghenion, sy'n llywio cylch cynllunio'r Partneriaethau
- Lleihau aildroseddu
- Comisiynu adolygiadau lladdiadau domestig (a sefydlwyd o dan adran 9 o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004)

Mae diogelwch cymunedol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi'u llywio ar sail polisïau a deddfwriaeth ychwanegol, gan gynnwys cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu o fewn Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, sydd â chyfrifoldeb am uno gwaith diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol. Yn nodedig, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gyflwynodd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, y mae eu gwaith yn gorgyffwrdd yn sylweddol â'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, yn ôl y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Mae'r Byrddau'n cynnal asesiadau llesiant lleol ac yn creu cynlluniau llesiant lleol, y mae'n rhaid iddynt, yn ôl y Ddeddf, ystyried asesiadau strategol a baratowyd gan y Partneriaethau.



Atodiad 1

Mae diogelwch cymunedol yn gorgyffwrdd â sawl maes polisi ac yn dibynnu ar weithio amlasiantaeth effeithiol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae gan y Partneriaethau oruchwyliaeth a chyfrifoldeb am sawl maes o dan ymbarél diogelwch cymunedol. Mae rhai'n ategu dyletswyddau penodol, gan gynnwys mynd i'r afael ag:

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anhrefn
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Terfysgaeth ac eithafiaeth
- Camddefnyddio sylweddau
- Gweithgarwch ehangach yn ymwneud â throseddu ac atal troseddu

Tra bydd cyfranogiad mewn meysydd eraill yn dibynnu ar y blaenoriaethau a osodir:

- Trais difrifol a throseddu trefnedig
- Diogelwch y cyhoedd
- Caethwasiaeth fodern a chamfanteisio ar blant ac oedolion

Mae meysydd eraill sy'n cydblethu â gwaith diogelwch cymunedol, megis diogelu ac ymyrraeth gynnar, cyfiawnder ieuenctid, grwpiau rheoli troseddwyr integredig, a chydraddoldeb, cynhwysiant a chydlyniant cymunedol.

Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn bartneriaid allweddol yn y gwaith o ddiogelu plant a phobl ifanc rhag cam-drin rhywiol a byddant yn chwarae rhan bwysig wrth i'r strategaeth hon gael ei rhoi ar waith.

# Atodiad 2:
## Terminoleg



### Atodiad 2

Rydym yn defnyddio'r term **'cam-drin plant yn rhywiol'** i gyfeirio at bob math o gamdriniaeth, fel y nodir yn niffiniad Llywodraeth Cymru o gam-drin plant yn rhywiol:

"...gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, boed y plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd neu beidio, gan gynnwys: cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu heb fod yn dreiddiol; gweithgareddau heb fod yn gyswllt, megis dwyn plant i mewn i edrych ar neu gynhyrchu deunydd pornograffig neu wylio gweithgareddau rhywiol neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol." (Llywodraeth Cymru, 2019:4)

**Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant** yn fath o gam-drin plant yn rhywiol sy'n cynnwys elfen o gyfnewid. Gall y cyfnewid gynnwys rhoi rhywbeth neu dynnu rhywbeth yn ôl, er enghraifft atal trais neu fygythiadau i gam-drin unigolyn arall. Gall y cyfnewid gynnwys rhoi rhywbeth neu dynnu rhywbeth yn ôl, er enghraifft atal trais neu fygythiadau i gam-drin unigolyn arall. Mae'n bosibl y bydd hwylusydd hefyd a fydd yn derbyn rhywbeth, yn ogystal â neu yn lle'r plentyn y camfanteisir arno. Efallai na fydd plant yn adnabod natur gamfanteisiol y berthynas neu'r cyfathrebu ac efallai y byddant yn teimlo eu bod wedi rhoi eu caniatâd. (Llywodraeth Cymru, 2019:4, Diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol | LLYW. CYMRU)

Diffinnir **ymddygiad rhywiol niweidiol fel** "... ymddygiadau rhywiol sy'n cael eu harddangos gan blant o dan 18 mlwydd oed sy'n anaddas yn ddatblygiadol, a allai fod yn niweidiol iddyn nhw neu bobl eraill, neu sy'n gamdriniol tuag at blentyn, person ifanc neu oedolyn arall. Mae'r diffiniad hwn o ymddygiadau rhywiol niweidiol yn cynnwys ymddygiadau â chyswllt â'r rheini heb gyswllt (magu perthynas amhriodol, arddangosiaeth, llygadu a secstio, neu gadw delweddau o weithrediadau rhywiol ar ffonau clyfar neu gymwysiadau cyfryngau cymdeithasol." (Llywodraeth Cymru, 2019:4)

Wrth gyfeirio at bobl a gafodd eu cam-drin yn rhywiol yn blant, rydym yn defnyddio'r term **'dioddefwyr-oroeswyr',** i gydnabod y gall unigolion ystyried eu hunain yn ddioddefwr, yn oroeswr neu'n gyfuniad o'r ddau.

Rydym yn defnyddio'r term **'rhiant/gofalwr'** i gynnwys unrhyw riant neu ofalwr mewn rôl rhiant neu brif ofalwr i blentyn. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, rhiant biolegol, llys-riant, rhiant mabwysiadol, rhiant maeth neu berthynas arall yn y rôl honno.

Rydym wedi defnyddio'r term **'cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein'** i ddisgrifio pob math o niwed rhywiol sy'n cael ei hwyluso gan dechnoleg, boed hynny'n niwed i blant gan blant eraill neu gan oedolion.

# Atodiad 3:

## Adnoddau i gefnogi ymarfer proffesiynol



Atodiad 3

### Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

- Canolfan Gydweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant – ACEs – storfa o adroddiadau ac astudiaethau yn ymwneud â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod
- Hafan – Hyb ACE Cymru – Gwybodaeth, adnoddau a chyrsiau hyfforddi a deunyddiau ar ACEs

### Barnardo's Cymru

- Adnoddau i helpu i ganfod ac ymgysylltu â phobl ifanc sydd mewn perygl o gam-drin rhywiol a chamfanteisio rhywiol | Barnardo's
- Cam-drin rhywiol a chamfanteisio ar blant: cefnogaeth i rieni a gofalwyr | Barnardo's
- WG – Harmful Sexual Behaviour – PROFESSIONAL GUIDE.pdf
- Ymddygiad Rhywiol Niweidiol – Canllaw i rieni.pdf
- 2696 Bs Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol gan gyfoedion W.pdf

### Y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol

- What you need to know about child sexual abuse | CSA Centre
- Communicating with children | CSA Centre
- Signs and indicators of child sexual abuse | CSA Centre
- Supporting parents and carers | CSA Centre
- Key messages from research | CSA Centre
- Research & evidence | CSA Centre
- Practice resources | CSA Centre
- Publications & Resources | CSA Centre
- Learning about data collection from practice | CSA Centre

Atodiad 3

## Sefydliad Lucy Faithfull

- Resources - Lucy Faithfull Foundation

## GIG Cymru

- Hafan – Gwella Ansawdd Straen Trawmatig Cymru Gyfan
- Cymru sy'n Ystyriol o Drawma

## NSPCC

- Sexual abuse | NSPCC
- Comprehensive child safety guide | NSPCC
- Types of Child Abuse & How to Prevent Them | NSPCC
- Spotting the signs of child abuse | NSPCC
- Effects of child abuse | NSPCC
- Child Sexual Exploitation & How to Keep Your Child Safe | NSPCC
- Online abuse | NSPCC
- Understanding Sexual Behaviour in Children | NSPCC

## Canllawiau Llywodraeth Cymru a strategaethau a chynlluniau gweithredu cysylltiedig

- Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: cod ymarfer diogelu | LLYW.CYMRU
- Diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol | LLYW. CYMRU
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026 [HTML] | LLYW.CYMRU
- Mesurau perfformiad gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer awdurdodau lleol | LLYW. CYMRU
- Strategaeth Tlodi Plant Cymru: adroddiad cynnydd 2025 | LLYW.CYMRU
- Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: cod ymarfer diogelu | LLYW.CYMRU



Atodiad 3

- Diogelu plant sy'n wynebu risg o gam-drin neu esgeulustod | LLYW. CYMRU
- Diogelu oedolion sy'n wynebu risg o gam-drin neu esgeulustod | LLYW. CYMRU
- Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn lleoliadau addysg: cynllun gweithredu [HTML] | LLYW.CYMRU
- Cadw'n ddiogel ar-lein – Hwb

## Adnoddau Llywodraeth Cymru

- Gwiriwch eich Ffordd o Feddwl – Adnoddau i ategu ymarfer diogelu gyda phobl ifanc, i'w defnyddio gan bawb sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac yn gofalu amdanynt.
- Deunyddiau i bobl ifanc – Gwiriwch eich Ffordd o Feddwl
- Cadw'n ddiogel ar-lein – Hwb
- Adnoddau – Stop It Now
- Getting Help To Keep Safe (u12) | Childline
- Getting help to keep safe | Childline
- Byw heb ofn: taflen 'yma i chi' | LLYW. CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Strategaeth ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru 2026–2036

llyw.cymru